

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

DEDDF GAMBLO 2005

DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU

Cymeradwywyd:

Cychwynnwyd: 31 Ionawr 2022

Drafft v.1 – Awst 2021

**Cewch ragor o wybodaeth oddi wrth:
Isadran Trwyddedu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN
Rhif ffôn: 01685 725000
E-bost: licensing@merthyr.gov.uk**

Cynnwys

1. Datganiad o Bolisi Trwyddedu	3
1.1 Cyflwyniad	3
1.2 Proffil o'r Fwrdeistref	3
1.3 Amcanion	5
1.4 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu	Error! Bookmark not defined.
1.5 Ymgynghori	Error! Bookmark not defined.
1.6 Awdurdodau Cyfrifol	6
1.7 Partïon â Diddordeb	Error! Bookmark not defined.
1.8 Cyfnewid Gwybodaeth	8
1.9 Gorfodi	Error! Bookmark not defined.
1.10 Hawliau Sylfaenol	Error! Bookmark not defined.
1.11 Cyfannu Strategaethau ac Osgoi Dyblygu	Error! Bookmark not defined.
1.12 Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Gymuned	10
2. Trwyddedau Safle	10
2.1 Egwyddorion Cyffredinol	10
2.2 Amgylchedd Priodol i Drwydded	12
2.3 Safleoedd "yn barod ar gyfer gamblo"	Error! Bookmark not defined.
2.4 Ystyriaethau Eraill	13
2.5 Dyblygu Cyfundrefnau Rheoleiddiol eraill	Error! Bookmark not defined.
2.6 Amcanion Trwyddedu:	Error! Bookmark not defined.
2.7 Betwatch:	16
2.8 Amodau:	17
2.9 Goruchwylwyr Drysau:	Error! Bookmark not defined.
2.10 Canolfannau Gamblo i Oedolion	Error! Bookmark not defined.
2.11 Canolfannau Adloniant i'r Teulu (Trwyddedig)	Error! Bookmark not defined.
2.12 Casinos	Error! Bookmark not defined.
2.13 Safleoedd Bingo	20
2.14 Safleoedd Betio	21
2.15 Traciau	22
2.16 Peiriannau Gamblo	Error! Bookmark not defined.
2.17 Peiriannau Betio	23
2.18 Ceisiadau a Chynlluniau	Error! Bookmark not defined.
2.19 Ffeiriau Teithiol	24
2.20 Datganiadau Darpariaethol	Error! Bookmark not defined.

3. Hawlenni/Hysbysiadau Defnydd Achlysurol a Thros Dro	Error! Bookmark not defined.
3.1 Hawlenni Peiriannau Gamblo mewn Canolfannau Adloniant i Deuluoedd (Didrwydded)	26
3.2 Hawlenni Peiriannau Gamblo mewn Safleoedd â Thrwydded Alcohol	 Error! Bookmark not defined.
3.3 Hawlenni Gamblo am Wobr	 Error! Bookmark not defined.
3.4 Hawlenni Gamblo a Hawlenni Peirannau mewn Clybiau	Error! Bookmark not defined.
3.5 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro	 Error! Bookmark not defined.
3.6 Hysbysiadau Defnydd Achlysurol	30
4. Loteriau Cymdeithasau Bach	 Error! Bookmark not defined.
5. Penderfynu	32
5.1 Gweinyddu, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau	32
5.2 Y Drefn Apelio	 Error! Bookmark not defined.
5.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau	.. Error! Bookmark not defined.
5.4 Gweithredu Penderfyniad y Llys Ynadon	Error! Bookmark not defined.
5.5 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig	Error! Bookmark not defined.
5.6 Adolygiadau	 Error! Bookmark not defined.
6. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2015 (LCCP)	35
7. Rhagor o Wybodaeth	 Error! Bookmark not defined.
Atodiad A Mynediad i Safle	45
Atodiad B Rhestr Ddirprwyo Swyddogaethau a Phenderfyniadau Trwyddedu	46
Atodiad C Diffiniadau	48
Atodiad D Crynodeb o Ddarpariaeth Peiriannau yn ôl Safle	48

1. Datganiad o Bolisi Trwyddedu

1.1 Cyflwyniad

Yn ôl Deddf Gamblo 2005, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi "Datganiad o Bolisi Trwyddedu" sy'n cynnwys yr egwyddorion y mae'n bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni'i swyddogaethau wrth ddelio â cheisiadau am Drwyddedau Safle, yn unol â gofynion y Ddeddf.

Daw'r Datganiad Polisi hwn i rym ar 31 Ionawr 2022. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn diweddarau ac yn cyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd bryd bynnag y bydd angen ond, sut bynnag, cyn pen 3 blynedd ar ôl dyddiad y Polisi hwn, a bydd yn ymgynghori'n llawn â phartneriaid, cymdeithasau masnachol a grwpiau trigolion fel y bo'n briodol, ac yn ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law bryd hynny.

Fodd bynnag, pan fo angen diweddariadau oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth genedlaethol, canllawiau statudol neu fanylion cyswllt, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid y Polisi hwn heb ymgynghori os oes angen sicrhau bod y Polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol.

Wrth gynhyrchu'r Datganiad Polisi terfynol, mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi ystyried amcanion trwyddedu'r Ddeddf Gamblo 2005, y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, unrhyw godau ymarfer ac unrhyw atebion oddi wrth y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar y Datganiad Polisi.

Mae gan y Cyngor ymrwymiad cyfreithiol i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac mae ganddo bolisi ar hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae gan y Maes Gwasanaeth ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei fframwaith cydraddoldeb ei hun, a gellir ei archwilio ar ein gwefan. Bydd trwyddedu pobl a safleoedd o dan y Ddeddf Gamblo 2005 yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodaeth i bob aelod o'r gymuned.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac mae'n ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl o'r fath. Bydd y Cyngor yn ystyried y Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu ac, yn enwedig, o ran sut y caiff ceisiadau eu hystyried a gweithgareddau gorfodi eu gwneud.



Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod angen iddo wyro o'r Polisi hwn ac o'r canllawiau a gyhoeddwyd dan y Ddeddf, mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol a lle bo'r achos yn haeddu penderfyniad o'r fath er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud ar ôl ymgynghori â chynghorwyr cyfreithiol a phriodol yr Awdurdod Trwyddedu, a bydd y rhesymau dros unrhyw wyriad o'r fath yn cael eu cofnodi'n llawn.

1.2 Proffil o'r Fwrdeistref

Mae Merthyr Tudful yn dref ac iddi hanes eithriadol. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn gorwedd ar ben Dyffryn Taf, 25 milltir i'r gogledd o Fôr Hafren ac wrth odre mynyddoedd Bannau Brycheiniog. Mae ymron i bumed ran yr Awdurdod wedi'i lleoli o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Y dyddiau hyn, mae'r Fwrdeistref Sirol yn gartref i 60,424 o bobl. Lleolir y dref yn strategol ar groesffordd yr A470 a Ffordd Blaenau'r Cymoedd sef yr A465. Mae'r A470 yn cysylltu Merthyr Tudful â thraffordd yr M4 a Chaerdydd, prifddinas Cymru, taith o dua 30 munud mewn cerbyd.

Mae'r mapiau canlynol ar gael yn Saesneg yn unig.



1.3 Amcanion

Wrth arfer y rhan fwyaf o'i swyddogaethau dan y Ddeddf, rhaid i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, ystyried yr amcanion trwyddedu canlynol:

- **Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, neu'n cael ei gysylltu â throsedd ac anhrefn, neu'n cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;**
- **Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored;**
- **Amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu'u camfanteisio gan gamblo.**

Dylid nodi bod y Comisiwn Gamblo wedi datgan: "Mae'r gofyniad mewn cysylltiad â phlant yn bendant er mwyn eu gwarchod rhag cael eu niweidio neu'u camfanteisio gan gamblo".

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymwybodol wrth wneud penderfyniadau ar drwyddedau safle a hysbysiadau defnydd dros dro y dylai, yn ôl Adran 153, amcanu at ganiatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo i'r graddau y mae'n credu ei fod:

- **yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;**
- **yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;**
- **yn cyd-fynd o fewn rheswm â'r amcanion trwyddedu;**
- **yn cydymffurfio â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.**

1.4 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

Dan y Ddeddf, mae gofyn i'r Cyngor wneud y canlynol:

- Bod yn gyfrifol am drwyddedu safleoedd lle mae gweithgareddau gamblo i ddigwydd trwy roi Trwyddedau Safle;
- Cyhoeddi Datganiadau Darpariaethol;
- Rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sydd am gynnal gweithgareddau gamblo penodol trwy gyhoeddi Hawlenni Gamblo Clwb a/neu Hawlenni Peiriannau Clwb;
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Clwb i Glybiau Masnachol;
- Rhoi hawlenni i ddefnyddio rhai peiriannau gamblo sy'n cynnig betiau llai mewn canolfannau adloniant didrwydded i'r teulu;
- Cael hysbysiad gan safleoedd â thrwydded i werthu alcohol (o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003) ar gyfer defnyddio dau beiriant gamblo neu lai;
- Rhoi Hawlenni Peiriannau Gamblo i safleoedd â thrwydded i werthu/cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle trwyddedig, o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, lle mae mwy na dau beiriant;
- Cofrestru loteriau cymdeithasau bach islaw trothwyon penodedig;
- Cyhoeddi Hawlenni Gamblo am Wobr;
- Derbyn a chymeradwyo Hysbysiadau Defnydd Dros Dro;
- Derbyn Hysbysiadau Defnydd Achlysurol;

- Rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo ynghylch manylion y trwyddedau a gyhoeddwyd (gwelwch yr adran isod ar gyfnewid gwybodaeth);
- Cadw cofrestrï o'r hawlenni a'r trwyddedau sy'n cael eu cyhoeddi o dan y swyddogaethau hyn.

Dylid nodi nad yw awdurdodau trwyddedu lleol yn ymwneud o gwbl â thrwyddedu gamblo o bell, sy'n cael ei reoli gan y Comisiwn Gamblo trwy Drwyddedau Gweithredwyr.

Mae'r Cyngor yn derbyn mai dim ond un dull o hyrwyddo cyflawniad y tri amcan yw'r swyddogaeth drwyddedu ac na ddylid ei gweld, felly, fel ffordd o ddatrys holl broblemau'r gymuned. Bydd y Cyngor o'r herwydd yn parhau i weithio fel partner gydag awdurdodau cyfagos, Heddlu De Cymru, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, busnesau lleol, pobl lleol a'r rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel y'u hamlinellwyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd dan Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 o ran atal trosedd ac anhrefn.

1.5 Ymgynghori

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y Datganiad hwn cyn ei derfynu a'i gyhoeddi. Isod, mae rhestr o'r bobl hynny yr ymgynghorwyd â hwy, yn unol â'r Ddeddf a Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo. Mae rhagor o fanylion, ynghyd â rhestr o sylwadau a wnaed ac ystyriaeth y Cyngor o'r sylwadau hynny, i'w cael ar gais.

- Prif Swyddog yr Heddlu;
- Yr Awdurdod Tân;
- Cynrychiolwyr y deiliaid hynny sy'n meddu ar drwyddedau safle amrywiol o fewn y Fwrdeistref Sirol ac a fydd yn teimlo effaith y Polisi hwn;
- Cyrff yn cynrychioli busnesau a thrigolion yn y Fwrdeistref Sirol;
- Adrannau (gan gynnwys Awdurdodau Cyfrifol) o fewn y Cyngor gyda diddordeb mewn trwyddedu gamblo;
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- Cyllid a Thollau EM;
- Bwrdd Iechyd Lleol.

Bu ymgynghori rhwng XXXXXX a XXXXXX ac, i'r graddau y mae'n ymarferol, dilynodd y Cyngor yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ac sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Cymeradwywyd y Polisi hwn mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar XXXXXX ac fe'i cyhoeddwyd ar XXXXXX. Mae'r Polisi ar gael i'w archwilio yn Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful ac ar wefan y Cyngor sef www.merthyr.gov.uk

1.6 Awdurdodau Cyfrifol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor wrth ymarfer ei bwerau dan Adran 157(h) o'r Ddeddf bennu, yn ysgrifenedig, gorff sy'n gymwys i'w gynghori ynglŷn â diogelu plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

- yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cwmpasu tiriogaeth gyfan y Cyngor;
- yr angen i'r corff gynnwys cynrychiolwyr uwch a chyfrifol o blith cyrff cyhoeddus priodol yn y Fwrdeistref Sirol, sydd â chyfrifoldeb dros warchod plant rhag niwed fel prif ddyletswydd.

Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, mae'r Cyngor yn dynodi Rheolwr Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r diben hwn. Mae manylion y cyrff a ddynodwyd dan y Ddeddf sydd i'w trin fel Awdurdodau Cyfrifol ar gael o'r Isadran Trwyddedu.

1.7 Partïon â Diddordeb

Fe all Partïon â Diddordeb wneud sylwadau ar geisiadau am drwydded, neu wneud cais am adolygiad o drwydded bresennol ar sail y tri amcan trwyddedu sy'n cael eu manylu ym mharagraff 1.3 o'r Datganiad Polisi hwn.

Ystyr "Parti â Diddordeb" yw rhywun:

- (a) sy'n byw'n ddigon agos at y safle i fod yn debygol o deimlo effaith y gweithgareddau awdurdodedig;
- (b) sydd â buddiannau busnes a allai deimlo effaith y gweithgareddau awdurdodedig; neu
- (c) sy'n cynrychioli pobl yn un o'r ddau grŵp uchod.

Yr egwyddorion fydd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor wrth benderfynu a yw rhywun yn Barti â Diddordeb yw'r canlynol:

Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei deilyngdod. Ni fydd y Cyngor hwn yn defnyddio rheol anhyblyg wrth benderfynu. Bydd yn ystyried enghreifftiau o ystyriaethau a ddarparwyd yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol. Bydd hefyd yn ystyried Canllaw'r Comisiwn Gamblo sy'n datgan y dylid rhoi'r dehongliad ehangaf posibl i "fuddiannau busnes", gan gynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau crefyddol, practisiau meddygol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Fe all Partïon â Diddordeb fod yn bobl a etholwyd yn ddemocrataidd, fel Cynghorwyr ac Aelodau Seneddol. Ni fydd angen tystiolaeth benodol o gael cais i gynrychioli rhywun â diddordeb cyn belled â bod y Cynghorydd/AS yn cynrychioli'r ward sy'n debygol o deimlo'r effaith. Yn yr un modd, bydd Cynghorau Plwyf sy'n debygol o gael eu heffeithio, yn cael eu hystyried fel partïon â diddordeb. Heblaw'r rhain, fodd bynnag, bydd y Cyngor hwn, yn gyffredinol, yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig fod rhywun, corff (e.e. eiriolwr/perthynas) yn "cynrychioli" rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos at y safle i fod yn debygol o deimlo effaith y gweithgareddau awdurdodedig a/neu fuddiannau busnes a allai deimlo effaith y gweithgareddau awdurdodedig. Mae gohebiaeth gan un o'r bobl hyn, yn gofyn am y gynrychiolaeth, yn ddigonol.

Os yw unigolion eisiau cysylltu â Chynghorwyr i ofyn iddynt gynrychioli eu barn, dylid gofalu nad yw'r Cynghorwyr yn rhan o'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo sy'n delio â'r cais am drwydded, nac mewn unrhyw ffordd arall yn meddu ar fuddiant personol a fyddai'n rhwystro iddynt gyfranogi mewn gwrandawriad. Os oes unrhyw amheuan, dylid cysylltu â'r Tîm Trwyddedu.

Dylid nodi, yn wahanol i'r Ddeddf Trwyddedu, nad yw'r Ddeddf Gamblo yn cynnwys "atal niwsans cyhoeddus" fel amcan trwyddedu penodol. Fodd bynnag, mae yna ddeddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymdrin â niwsans cyhoeddus.

1.8 Cyfnewid Gwybodaeth

Yr egwyddor y bydd y Cyngor yn ei defnyddio o ran cyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo a'r cyrff hynny sy'n cael eu rhestru yn Atodlen 6 i'r Ddeddf, yw y bydd yn gweithredu'n unol â darpariaethau'r Ddeddf Gamblo 2005 sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd Deddf Diogelu Data 1998 yn cael ei thorri. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol ar y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan y pwerau a ddarparwyd yn y Ddeddf Gamblo 2005.

1.9 Gorfodi

Egwyddorion y Cyngor yw y bydd yn cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol, Cod y Rheolyddion a Pholisi Gorfodi'r Cyngor. Bydd yn ceisio bod:

- **Yn gymesur:** ni ddylai rheolyddion ymyrryd ond pan fo angen, dylai rhwymedïau fod yn briodol i'r perygl, a dylai costau gael eu nodi a'u lleihau hyd yr eithaf;
- **Yn atebol:** rhaid i reolyddion allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn agored i graffu cyhoeddus;
- **Yn gyson:** rhaid i reolau a safonau fod yn gysylltiedig, a chael eu gweithredu'n deg;
- **Yn agored:** dylai rheolyddion fod yn agored gan gadw rheoliadau'n syml ac yn ystyriol o ddefnyddwyr; ac
- **Wedi'i dargedu:** dylai'r rheoleiddiad ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau'r sgil effeithiau gymaint â phosibl.

Ar sail Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu, bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dyblygu cyfundrefnau rheoleiddiol eraill cyn belled ag y bo modd.

Mae'r Cyngor yn gweithredu rhaglen archwilio wedi'i seilio ar y canlynol:

- Yr amcanion trwyddedu;
- Codau ymarfer perthnasol;
- Canllawiau'r Comisiwn Gamblo, Rhan 36 yn arbennig;
- Yr egwyddorion a nodwyd yn Natganiad y Polisi Trwyddedu hwn;

- Polisi Gorfodi'r Cyngor.

Prif swyddogaeth orfodi a chydymffurfio'r Cyngor hwn o ran y Ddeddf Gamblo 2005 yw sicrhau cydymffurfiaid â'r Trwyddedau Safle a'r caniatadau eraill sy'n cael eu hawdurdodi ganddo. Y Comisiwn Gamblo yw'r corff gorfodi ar gyfer Trwyddedau Gweithredwr a Thrwyddedau Personol. Y Cyngor sy'n trin pryderon ynghylch gweithgynhyrchu, cyflenwi neu drwsio peiriannau gamblo ond dylid hysbysu'r Comisiwn Gamblo amdanynt.

Bydd y Cyngor yn ystyried canllawiau diweddaraf y Comisiwn Gamblo, "Dulliau Prawf-brynu", a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 (neu unrhyw newidiadau dilynol) wrth ystyried prawf-brynu mewn safleoedd gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisiâu a'i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prawf-brynwyr dan oed.

Mae'r Cyngor hefyd yn cadw ar y blaen i ddatblygiadau o ran gwaith y Swyddfa Rheoliadau Gwell wrth iddo ystyried swyddogaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol.

1.10 Hawliau Sylfaenol

Yn ôl telerau'r Ddeddf, gall unrhyw unigolyn neu gwmni wneud cais am amrywiaeth o ganiatadau a chael ystyried eu ceisiadau ar sail eu teilyngdod eu hunain. I'r un graddau, mae gan unrhyw Barti â Diddordeb neu Awdurdod Cyfrifol hawl i wneud sylwadau perthnasol ar gais, neu ofyn am adolygu trwydded neu dystysgrif pan fo darpariaeth iddynt wneud hynny yn y Ddeddf.

Mae gan geiswyr a'r rhai sy'n gwneud sylwadau perthnasol ynghylch ceisiadau i'r Cyngor, yr hawl i wneud apel i'r Llysoedd Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor.

1.11 Cyfannu Strategaethau ac Osgoi Dyblygu

Trwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi hwn, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i bolisiâu lleol ar atal trosedd, diwylliant, cludiant, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth gyfannol ar gyfer y Cyngor, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Efallai nad yw llawer o'r strategaethau hyn yn uniongyrchol berthnasol i hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu, ond gallant effeithio arnynt yn anuniongyrchol.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd y Cyngor yn osgoi dyblygu cyfundrefnau rheoleiddiol eraill cyn belled ag y bo modd. Felly, ni fydd y Cyngor yn ychwanegu amodau at drwydded oni bai eu bod yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gymesur i ddefnyddio safleoedd ar gyfer gamblo, ac yn gyson â'r amcanion trwyddedu.

1.12 Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Gymuned

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio strategaeth gymunedol o fewn fframwaith Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU – “Gwell Ansawdd Bywyd” a strategaethau rhanbarthol perthnasol. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau a chyda'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae strategaethau cymunedol yn rhoi canolbwynt i nodi materion ac uchelgeisiau lleol ar gynhwysiant cymdeithasol, diogelu'r amgylchedd, cyflogaeth a datblygu economaidd.

Yn nodweddiadol, mae partneriaethau strategol lleol yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau gofal sylfaenol, a chynrychiolwyr addysg, busnes a mudiadau'r sector gwirfoddol, ac maent yn gyfrifol am gyflawni amcanion a bennwyd yn lleol.

O dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, rhaid i awdurdodau lleol ystyried effaith debygol y modd y maent yn arfer eu swyddogaethau ar drosedd ac anhrefn yn y cylch, a gwneud gymaint ag y gallant i'w hatal. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth arbennig i effaith debygol trwyddedu ar drosedd ac anhrefn cysylltiedig yn y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig wrth ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau arfaethedig am drwyddedau/hawleni, adnewyddiadau ac amrywio amodau.

2. Trwyddedau Safle

2.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae Trwyddedau Safle yn caniatáu cyfleusterau gamblo yn y mannau canlynol:

- Safleoedd Casino;
- Safleoedd Bingo;
- Safleoedd Betio (gan gynnwys traciau rasio a ddefnyddir gan gyfryngwyr betio);
- Canolfannau Betio i Oedolion (AGCs);
- Canolfannau Adloniant i'r Teulu (FECs).

Ac eithrio yn achos Traciau (lle nad y meddiannydd yw'r un sy'n cynnig gamblo), caiff Trwyddedau Safle ond eu rhoi i'r rhai a gafodd Trwydded Gweithredu gan y Comisiwn Gamblo.

Mae Trwyddedau Safle yn ddarostyngedig i'r gofynion a amlinellir yn y Ddeddf Gamblo 2005 ac mewn rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a diofyn penodol y gwelir manylion ohonynt mewn rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall awdurdodau trwyddedu hepgor amodau diofyn a hefyd ychwanegu rhai eraill lle credir ei bod yn briodol.

Mae'r Cyngor yn effro i'r ffaith y dylai, wrth wneud penderfyniadau am drwyddedau safle, anelu at ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gamblo, cyn belled â'i fod o'r farn fod hynny:

- yn cydymffurfio ag unrhyw Godau Ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gafodd eu cyhoeddi gan y Comisiwn Gamblo;
- yn cydymffurfio'n rhesymol â'r amcanion trwyddedu; ac
- yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi hwn.

Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol, gwerthfawrogir "nad yw gwrthwynebiadau moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am Drwyddedau Safle", a hefyd nad yw galw heb ei fodloni yn faen prawf ar gyfer Awdurdod Trwyddedu.

Gall y Cyngor hwn ystyried mesurau i gyflawni'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau o'r fath, megis:

- Cynlluniau prawf oedran
- TCC
- Goruchwyllo mynedfeydd/ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn adeileddol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-wahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.
- Mesurau/hyfforddiant ar gyfer staff ar sut i ddelio â phlant ar y safle, er enghraifft, amau triwantiaeth o'r ysgol.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gyflawn - mesurau enghreifftiol ydynt yn unig.

Mae'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer" (LCCP) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo yn rhoi cyfrifoldeb ar safleoedd i gwblhau asesiadau risg. Bydd y Cyngor yn cadw'r cod hwn mewn cof wrth ystyried ceisiadau. Caiff hyn ei drin yn fanwl yn Adran 6 y Datganiad hwn.

Diffinio "Safleoedd":

Diffiniwyd safleoedd yn y Ddeddf fel "unrhyw fan". Felly, mae Adran 152 yn atal mwy nag un drwydded safle rhag bod yn berthnasol i unrhyw fan. Ond gallai fod mwy nag un drwydded safle'n berthnasol i adeilad unigol, cyhyd â'u bod ar gyfer gwahanol rannau o'r adeilad a bod modd ystyried gwahanol rannau'r adeilad o fewn rheswm fel gwahanol safleoedd. Cymrwyd yr agwedd hon er mwyn caniatáu i safle mawr, aml-uned fel parc difyrion, pier, trac neu farchnadfa gael trwyddedau safle ar wahân, pan fo dulliau diogelu priodol yn bodoli. Fodd bynnag, dylai

awdurdodau trwyddedu roi sylw arbennig i unrhyw anawsterau a gwyd yn sgil isrannu adeilad neu lain unigol, a dylent hefyd sicrhau y bydd unrhyw amodau gorfodol ynghylch mynediad rhwng y safleoedd yn cael eu cadw.

Mae'r Comisiwn Gamblo'n datgan yn ei Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: "Yn y rhan fwyaf o achosion, y disgwyl yw mai adeilad/llain unigol fydd yn destun cais am drwydded. Ond nid yw hynny'n golygu na all llain adeilad unigol fod yn destun trwyddedau safle ar wahân, e.e. yr islawr a'r llawr isaf, os cânt eu trefnu'n dderbyniol. Yr amgylchiadau fydd yn penderfynu a yw'n briodol ystyried gwahanol rannau o adeilad fel safle ar wahân. Mae'n amlwg y bydd lleoliad y safle'n ystyriaeth bwysig ac mae addasrwydd y rhaniad yn debygol o fod yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu.

Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn barnu bod modd ystyried rhannau o adeilad sy'n cael eu gwahanu'n artiffisial neu dros dro, er enghraifft, gyda rhaffau neu barwydydd symudol, yn briodol fel gwahanol safle".

Mae'r Cyngor yn rhoi sylw arbennig i Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n datgan y dylai awdurdodau trwyddedu gymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a cheisiadau sy'n ymwneud â rhannau arwahanol o'r adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (heblaw gamblo). Yn arbennig, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol –

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu'n ceisio gwarchod plant rhag niwed oherwydd gamblo. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond hefyd eu hatal rhag bod yn agos at y gamblo. Felly, dylid cynllunio safleoedd fel nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gamblo, yn cael mynediad damweiniol ato nac yn gallu gwylio gamblo'n agos lle cânt eu gwahardd rhag cyfranogi;
- Dylai mynedfeydd i rannau o adeilad sy'n cael ei gynnwys dan un neu ragor o Drwyddedau Safle, ac allanfeydd ohono, fod ar wahân ac yn bosibl eu hadnabod, fel na fydd gwahanu safleoedd gwahanol yn cael ei beryglu a phobl yn "crwydro" i mewn i ardal gamblo. Yn y cyd-destun hwn, dylai fel arfer fod yn bosibl cael mynediad i'r safle heb fynd trwy safleoedd trwyddedig eraill neu safleoedd â hawlen;
- Dylai cwsmeriaid allu cymryd rhan yn y gweithgaredd sy'n cael ei enwi ar y drwydded safle.

Mae'r Canllawiau hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, ac a all gynnwys y canlynol:

- A oes gan y safle gofrestrriad ar wahân ar gyfer trethi busnes?
- A yw'r safle cyfagos iddo o dan yr un berchenogaeth neu o dan berchenogaeth rhywun arall?
- A oes modd cyrraedd pob safle o'r stryd neu dramwyfa gyhoeddus?
- Ai o safle gamblo arall yn unig y mae modd cyrraedd y safle dan sylw?

2.2 Amgylchedd Priodol i Drwydded

Mae'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol a'r LCCP yn nodi materion ychwanegol y dylai'r Cyngor eu cyfrif wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau safle.

Mae'r Canllawiau yn pennu cyfyngiadau ar weithgareddau gamblo mewn safle, gynt yn dwyn yr enw "prif weithgaredd gamblo". Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gais ar sail y darpariaethau yn y codau a'r canllawiau hyn.

Pan fo cyfleusterau gamblo'n cael eu darparu mewn safle fel gweithgaredd atodol i brif ddiben y safle, e.e. manau gwasanaeth traffyrdd a marchnadfeydd, bydd y Cyngor yn disgwyl bod yr ardal gamblo yn cael ei diffinio'n eglur i sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i safle gamblo, a bod y safle dan oruchwyliaeth ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y rhain ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, gan ddibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

Caiff Canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar ddarpariaethau mynediad perthnasol ar gyfer pob math o safle eu cyflwyno yn Atodiad A.

2.3 Safle "yn barod ar gyfer gamblo"

Yn ôl y Canllawiau, dim ond mewn achosion pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon y bydd adeiladau'n barod i'w defnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol rhesymol agos, yn gyson â graddfa'r gwaith adeiladu neu'r addasiadau sy'n angenrheidiol cyn dechrau defnyddio'r adeiladau, y dylid rhoi trwydded i ddefnyddio adeiladau ar gyfer gamblo.

Os na orffennwyd adeiladu safle eto, neu os oes angen ei addasu, neu os nad oes gan y ceisydd eto'r hawl i feddiannu'r safle, yna dylid gwneud cais am ddatganiad darpariaethol yn lle hynny.

Wrth benderfynu a ellir rhoi Trwydded Safle lle mae gwaith adeiladu neu waith addasu heb ei wneud ar y safle, bydd y Cyngor hwn yn penderfynu ar geisiadau yn ôl eu teilyngdod, gan ddefnyddio proses o ystyriaeth ar ddau gam fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, a ddylid caniatáu defnyddio'r safle ar gyfer gamblo;
- Yn ail, a oes modd pennu amodau priodol i ddarparu ar gyfer sefyllfa lle nad yw'r safle eto yn y cyflwr y dylai fod ynddo cyn bod gamblo'n digwydd.

Dylai ceiswyr sylwi bod gan yr Awdurdod hwn hawl i benderfynu ei fod yn briodol rhoi trwydded ag amodau, ond nad yw'n gorfod rhoi trwydded o'r fath. Mae enghreifftiau manylach o'r amgylchiadau sy'n caniatáu rhoi trwydded o'r fath i'w cael yn y Canllawiau.

2.4 Ystyriaethau Eraill

Lleoliad

Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad oes modd ystyried materion galw o ran lleoliad safle ond bod ystyriaethau o ran yr amcanion trwyddedu'n berthnasol i'w dasg o wneud penderfyniadau. Ar sail Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol, bydd y Cyngor yn sylwi'n arbennig ar warchod plant a phobl fregus rhag bod gamblo'n peri niwed iddynt neu'n camfanteisio arnynt, yn ogystal â materion trosedd ac anhrefn. Dylid nodi nad yw unrhyw bolisi felly'n gwahardd gwneud unrhyw gais, a chaiff pob cais ei benderfynu yn ôl ei deilyngdod, gyda'r pwysau ar yr ymgeisydd i ddangos sut y gellir datrys pryderon posibl.

Cynllunio

Mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu'n datgan:

- Wrth benderfynu ynghylch ceisiadau, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i ystyried yr holl faterion perthnasol a pheidio ag ystyried unrhyw faterion amherthnasol, h.y. y rhai nad ydynt yn berthnasol i'r gamblo a'r amcanion trwyddedu. Un enghraifft o fater amherthnasol fyddai'r tebygolrwydd y byddai'r ceisydd yn cael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer eu cynnig.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried materion amherthnasol ar sail y Canllawiau uchod. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r dyfyniad canlynol o'r Canllawiau:

- Wrth ymdrin â chais Trwydded Safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni ddylai'r Awdurdod Trwyddedu ystyried a yw'r adeiladau hynny yn gorfod cydymffurfio â'r caniatadau cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Dylid delio â'r materion hynny gyda phwerau o dan reolaeth gynllunio berthnasol a rheoliadau adeiladu, ac nid fel rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y Drwydded Safle. Mae adran 210 o Ddeddf 2005 yn atal awdurdodau trwyddedu rhag ystyried tebygolrwydd y bydd y cynnig gan yr ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeiladu wrth ystyried cais am Drwydded Adeiladau. Yn yr un modd, nid yw rhoi Trwydded Safle ar gyfer gamblo yn niweidio nac yn atal unrhyw gamau a allai fod yn briodol o dan y gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio neu adeilad.

2.5 Dyblygu Cyfundrefnau Rheoleiddiol Eraill

Mae'r Cyngor yn ceisio osgoi dyblygu unrhyw gyfundrefnau statudol/rheoleiddiol eraill lle bo modd, gan gynnwys cynllunio. Ni fydd y Cyngor yn ystyried a yw cais am drwydded yn debygol o gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu pan fydd yn ei ystyried. Serch hynny, bydd yn gwrando ar, ac yn ystyried yn ofalus, unrhyw bryderon ynghylch amodau nad yw trwyddedeion yn gallu eu cyflawni oherwydd cyfyngiadau cynllunio, pe bai'r fath sefyllfa'n codi.

Wrth ddelio â chais am Drwydded Safle ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd y Cyngor yn ystyried a yw'r adeiladau hynny'n gorfod cydymffurfio â'r caniatâd cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Ni fydd peryglon tân neu iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried, oherwydd bod y materion hyn yn cael eu trin dan reolaeth gynllunio, rheoliadau adeiladau a rheoliadau perthnasol eraill a rhaid iddynt beidio â ffurfio rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y Drwydded Safle.

2.6 Amcanion Trwyddedu

Rhaid i Drwyddedau Safle sy'n cael eu rhoi gyd-fynd o fewn rheswm â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r Cyngor wedi ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol a chaiff rhai sylwadau eu gwneud isod.

Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gynorthwyo trosedd:

Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod y Comisiwn Gamblo'n cymryd rhan flaenllaw mewn atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd. Fodd bynnag, mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn rhagweld y dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliad arfaethedig safle gamblo o ran yr amcan trwyddedu hwn. Felly, pan fo ardal yn cael ei hadnabod fel un sydd â lefelau uchel o droseddau cyfundrefnol, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus a fyddai'n addas lleoli safleoedd gamblo yno ac a fyddai'n addas gosod amodau fel darparu goruchwylwyr drysau yno. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng anhrefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau fel: a oedd angen cymorth yr Heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i lygad-dystion, er mwyn gwahaniaethu felly. Nid oes modd rhoi sylw i faterion niwsans trwy ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo.

Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored:

Mae'r Cyngor wedi nodi bod y Comisiwn Gamblo yn datgan nad yw'n disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymwneud â sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored, oherwydd y bydd hyn yn cael sylw trwy drwyddedau gweithredu a phersonol. Fodd bynnag, mae iddo fwy o swyddogaeth o ran traciau, a chaiff hynny ei esbonio'n fanylach yn yr adran "traciau".

Amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag bod gamblo'n peri niwed iddynt neu'n cam-fanteisio arnynt

Mae'r Cyngor wedi nodi bod Canllawiau'r Comisiynydd Gamblo i Awdurdodau Lleol yn datgan mai ystyr yr amcan hwn yw atal plant rhag cymryd rhan mewn gamblo (yn ogystal â chyfyngu ar hysbysebu fel nad yw cynhyrchion gamblo'n anelu at blant nac yn arbennig o ddeniadol iddynt). Felly, fel sy'n cael ei awgrymu yn y Canllawiau hyn, bydd y Cyngor yn ystyried a oes angen mesurau penodol mewn safle arbennig, o ran yr amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd, ac ati.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r Codau Ymarfer, y mae'r Comisiwn Gamblo yn eu cyhoeddi o ran yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas â safleoedd penodol.

O ran y term “pobl fregus”, sylwyd nad yw'r Comisiwn Gamblo yn ceisio cynnig diffiniad ond mae'n datgan y “bydd, at ddibenion rheolaethol, yn tybio bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag sydd arnynt eisiau; pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w modd; a phobl na fydd efallai'n gallu gwneud penderfyniadau deallus neu gytbwys ynghylch gamblo oherwydd amhariad meddyliol, alcohol neu gyffuriau”. Bydd y Cyngor yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn yn ôl yr achos.

Mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol yn cyflwyno ystyriaethau sydd raid i weithredwr eu gwneud er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag mynd i safleoedd gamblo.

Mae'r Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer (LCCP) yn pennu'r modd y mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gweithgareddau gamblo â chyfyngiad oedran arnynt, yn enwedig lle trwyddedwyd peiriannau gamblo.

Yn arbennig, rhaid i weithredwyr sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi;
- bod yr holl gwsmeriaid yn cael eu goruchwyllo pan fyddant mewn safleoedd gamblo;
- bod ganddynt ffyrdd o adnabod cwsmeriaid sydd mewn perygl o gael eu niweidio trwy gamblo.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob gweithredwr feddu ar bolisiau a gweithdrefnau yn unol â chodau'r LCCP ar gyfrifoldeb cymdeithasol, fel eu bod yn cwmpasu holl agweddau'r Cod, yn arbennig cofnodion hyfforddi staff a chofnodion hunan-wahardd.

Mae darpariaethau pellach o ran hunan-wahardd a marchnata'n cael eu cynnwys yn y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl amodau a'r codau wrth ymdrin â cheisiadau neu weithgareddau gorfodi.

Mae adran 6 o'r Datganiad Polisi hwn yn rhoi rhagor o fanylion gan gynnwys gofynion y Cyngor mewn cysylltiad â'r LCCP.

Bydd y Cyngor yn ystyried adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru i gefnogi'r amcan trwyddedu er mwyn amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu'u camfanteisio gan gamblo.

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded gynnal y gwiriadau angenrheidiol ar bob aelod perthnasol o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladau lle mae gan blant a phobl fregus fynediad iddynt.

2.7 Betwatch:

Bydd y Cyngor yn cefnogi gweithredwyr lleol os ydynt am greu a chynnal rhwydwaith i rannu gwybodaeth a thrafod materion sy'n ymwneud â gamblwyr problemus. Bydd hyn hefyd yn gyfle i weithredwyr drafod materion â'r swyddogion trwyddedu.

2.8 Amodau:

Mae'r amodau gorfodol a diofyn fel rheol yn ddigonol i sicrhau bod gweithrediad y safle'n gyson â'r amcanion trwyddedu. Gellir gosod amodau ychwanegol ddim ond os oes perygl i'r amcanion trwyddedu a bod amodau gorfodol a diofyn yn cael eu hatodi yn sgil hynny.

Bydd unrhyw amodau ynghlwm wrth drwyddedau'n gymesur ac:

- yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo;
- yn uniongyrchol berthnasol i'r safle a'r math o drwydded y ceisiwyd amdani;
- yn deg ac yn gysylltiedig o fewn rheswm â maint a math y safle; ac
- yn rhesymol ar bob cyfrif arall.

Bydd penderfyniadau ar amodau unigol yn cael eu gwneud fesul achos, er y bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio nifer o fesurau os gwelir bod angen, fel defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd oedolion yn unig, ac ati. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, rhoddir sylw penodol i'r asesiad risg lleol a wnaed ar gyfer pob safle. Gwnaed sylwadau penodol yn hyn o beth o dan rai mathau o drwyddedau ac fe'u nodwyd isod. Bydd y Cyngor hefyd yn disgwyl i'r ceiswyr trwydded gynnig eu hawgrymiadau eu hunain ar sut y mae cyflawni'r amcanion trwyddedu'n effeithiol, ar y cyd â'r amodau gorfodol a bennir yn Rheoliadau'r Ddeddf Gamblo 2005 (Amodau Gorfodol a Diofyn) (Cymru a Lloegr) 2007.

Dyma restr o amodau y gallai'r Cyngor eu gosod ar drwydded:

Amodau diogelwch

- Lleiafswm o ddau aelod staff ar ôl 10pm;
- Bydd gan y safle larwm tresmaswyr a botwm panig;
- Rhaid gosod monitor y tu mewn i'r safle uwchlaw'r drws ffrynt sy'n dangos delweddau TCC o gwsmeriaid yn mynd i mewn i'r safle.

Amodau ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Rhaid i'r trwyddedai ddatblygu a chytuno ar brotocol â'r heddlu ynghylch adrodd am ddigwyddiadau, gan gynnwys y math a'r lefel o ddigwyddiad a'r dull cyfathrebu, er mwyn i'r heddlu fedru monitro unrhyw broblemau sy'n codi yn y safle neu mewn perthynas â'r safle;
- Rhaid i'r trwyddedai osod a chynnal arwydd ar y fynedfa sy'n datgan mai "dim ond diodydd a brynir ar y safle y gellir eu hyfed ar y safle";

- Rhaid i'r trwyddedai weithredu polisi o wahardd unrhyw gwsmeriaid sy'n cyflawni trosedd neu anhrefn o fewn neu du allan y safle.

Rheolaethau dan oed

- Bydd yn rhaid i gwsmeriaid o dan 21 ddarparu cerdyn adnabod;
- Ni ddylid lleoli unrhyw beiriannau yn y Ganolfan Adloniant i'r Teulu (Didrwydded) o fewn un metr i fynedfa'r Ganolfan Gamblo i Oedolion;
- Dylai cofnodion hyfforddi staff neu gopïau ardystiedig fod ar gael yn y safle i'w harchwilio.

Rheolaethau amddiffyn chwaraewyr

- Ni fydd unrhyw beiriant codi arian na chyfleusterau ATM ar y safle;
- Bydd y trwyddedai yn hyfforddi staff ar faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r ardal leol ac yn cynnal cyrsiau gloywi o bryd i'w gilydd. Rhaid cadw cofnod ffurfiol o bawb sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant a chyflwyno'r cofnodion er sylw'r heddlu neu'r awdurdod trwyddedu yn ôl y gofyn;
- Bydd dogfennaeth GamCare yn cael ei harddangos yn amlwg o fewn yr adeilad.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr - mae hi ond yn rhoi enghraifft o'r math o amodau y gellid eu gosod gan ddibynnu ar amgylchiadau pob safle unigol.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried mesurau penodol a all fod yn ofynnol ar gyfer adeiladau sydd â thrwyddedau safle lluosog. Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwyllo mynedfeydd; gwahanu ardaloedd gamblo o ardaloedd eraill lle mae plant; a goruchwyllo peiriannau gamblo mewn safleoedd lle nad yw gamblo'n benodol i oedolion yn unig er mwyn ceisio cyflawni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo a'r Codau Ymarfer(ion).

Pan fo peiriannau categori C neu uwch ar gynnig mewn safle lle mae mynediad i blant, bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau'r canlynol:

- bod holl beiriannau o'r fath yn cael eu lleoli mewn rhan o'r safle a wahanwyd o'r gweddill gan rwystr adeileddol sy'n effeithiol i atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig;
- mai dim ond oedolion sy'n cael mynediad i'r rhan lle mae'r peiriannau hyn;
- bod mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau'n cael eu goruchwyllo;
- bod yr ardal lle mae'r peiriannau hyn, yn cael ei threfnu fel bod modd i'r staff neu ddeiliad y drwydded ei gwyllo; a
- bod rhybuddion amlwg yn gwahardd mynediad i'r ardal i rai dan 18, wedi'u gosod wrth y fynedfa i unrhyw ardaloedd o'r fath ac oddi mewn iddynt.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i safleoedd, gan gynnwys adeiladau lle mae trwyddedau safle lluosog yn gymwys.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall fod un, neu fwy nag un, drwydded safle'n berthnasol i draciau, ond bod pob trwydded yn berthnasol i rannau penodedig o'r trac. Ar sail Canllawiau Gamblo'r Comisiwn, bydd y Cyngor hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd ar wahân i bob math o safle a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd gamblo lle nad ydynt yn cael mynediad.

Nodwyd bod amodau na all y Cyngor eu gosod ar drwyddedau safle, sef:

- Unrhyw amod ar y drwydded safle sy'n ei wneud yn amhosibl cydymffurfio ag amod trwydded weithredu;
- Amodau sy'n gysylltiedig â chategoriâu, niferoedd, neu ddull o weithredu peiriannau gamblo;
- Amodau sy'n darparu bod angen aelodaeth o glwb neu gorff (mae'r Ddeddf Gamblo 2005 yn dileu'n benodol y gofyniad am aelodaeth i glybiau casino a bingo ac mae'r ddarpariaeth hon yn ei atal rhag cael ei adfer); ac
- Amodau mewn cysylltiad â maint betiau, ffioedd, enillion neu wobrau.

2.9 Goruchwylwyr Drysau

Yn ei Ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu, mae'r Comisiwn Gamblo yn datgan os yw'n pryderu y gall safle ddenu anhrefn neu fynediad diawdurdod (e.e. gan blant a phobl ifanc), yna gall fynnu bod goruchwyllydd drysau yn rheoli'r mynedfeydd i'r safle, ac mae ganddo'r hawl i osod trwydded safle i'r perwyl hwnnw.

Wrth benderfynu bod goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau yn briodol ar gyfer achosion penodol, ystyrir p'un a oes angen y drwydded SIA hon ai peidio. Ni chymerir yn ganiataol yn awtomatig bod angen iddynt gael eu trwyddedu, gan fod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd yn amrywio.

2.10 Canolfannau Gamblo i Oedolion

Bydd y Cyngor yn ystyried yn benodol yr angen i warchod plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio neu'u camfanteisio gan gamblo, a bydd disgwyl i'r ceisydd ddarbwylllo'r Cyngor y bydd ganddo fesurau digonol yn eu lle i sicrhau, er enghraifft, nad yw'r rhai dan 18 oed yn cael mynediad i'r safle.

Pan fo cyfleusterau gamblo'n cael eu darparu mewn safle fel gweithgaredd atodol i'w brif ddiben, e.e. safleoedd gwasanaethau traffyrdd a marchnadfeydd, bydd y Cyngor yn disgwyl bod yr ardal gamblo yn cael ei diffinio'n eglur i sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i'r safle gamblo a bod y safle dan oruchwyliaeth ddigonol bob amser.

Gall y Cyngor hwn ystyried mesurau i gyflawni'r amcanion trwyddedu fel:

- Cynlluniau prawf oedran
- TCC

- Goruchwyllo mynedfeydd/ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn adeileddol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-wahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gyflawn - mesurau enghreifftiol ydynt yn unig.

2.11 Canolfannau Adloniant i'r Teulu (Trwyddedig)

Bydd y Cyngor yn ystyried yn benodol yr angen i warchod plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio neu'u camfanteisio gan gamblo, a bydd disgwyl i'r ceisydd ddarbwylllo'r Cyngor y bydd mesurau digonol yn eu lle i sicrhau, er enghraifft, nad yw rhai dan 18 oed yn cael mynediad i'r ardaloedd lle ceir peiriannau gamblo i oedolion yn unig.

Gall y Cyngor ystyried mesurau i gyflawni'r amcanion trwyddedu fel:

- Cynlluniau prawf oedran
- TCC
- Goruchwyllo mynedfeydd/ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn adeileddol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-wahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.
- Mesurau/hyfforddiant ar gyfer staff ar sut i ddelio â phlant yn y safle, er enghraifft, amau triwantiaeth o'r ysgol.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gyflawn - mesurau enghreifftiol ydynt yn unig.

2.12 Casinos

Penderfyniad dim casinos

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gasinos yn gweithredu o fewn y Fwrdeistref. Pasiwyd penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau casino o fewn Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn unol ag adran 166 o'r Ddeddf Gamblo 2005. Adolygwyd y penderfyniad hwn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar XXXXXX pryd yr adnewyddwyd y mesur i beidio â rhoi trwyddedau ar gyfer casinos.

2.13 Safleoedd Bingo

Bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu fodloni'u hunain bod modd chwarae bingo mewn unrhyw safle sy'n cael trwydded ganddynt i wneud hynny. Bydd hon yn ystyriaeth berthnasol pan fydd gweithredwyr safleoedd bingo presennol yn gwneud cais i amrywio'u trwydded i "gau allan" rhan o'r safle presennol o'u cyfrifoldeb ac yna'n gwneud cais am drwydded safle newydd, neu drwyddedau lluosog, ar gyfer y rhannau hynny a gaewyd allan.

Mae deiliaid trwyddedau safle bingo'n gallu rhoi nifer o beiriannau gamblo categori B ar gael i'w defnyddio, heb fod dros 20% o gyfanswm y peiriannau gamblo sydd ar gael i'w defnyddio ar y safle.

Mae plant a phobl ifanc yn cael mynd i safleoedd bingo; fodd bynnag, nid ydynt yn cael cymryd rhan yn y bingo ac, os oes peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, rhaid gwahanu'r rhain o ardaloedd lle caiff plant a phobl ifanc fynd iddynt.

Pan fo peiriannau categori C neu uwch ar gynnig mewn safle lle mae mynediad i blant, bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau'r canlynol:

- bod holl beiriannau o'r fath yn cael eu lleoli mewn rhan o'r safle a wahanwyd o weddill y safle gan rwystr adeileddol sy'n effeithiol i atal mynediad heblaw trwy fynedfa ddynodedig;
- mai dim ond oedolion sy'n cael mynediad i'r rhan lle mae'r peiriannau hyn;
- bod mynediad i ardal y peiriannau yn cael ei oruchwyllo;
- bod ardal y peiriannau hyn yn cael ei threfnu fel bod modd i'r staff neu ddeiliad y drwydded ei gwyllo; a
- bod hysbysiadau amlwg yn gwahardd mynediad i'r ardal i rai dan 18 wedi'u gosod wrth y fynedfa i unrhyw ardaloedd o'r fath ac oddi mewn iddynt.

Dim ond Bingo Trosiant Isel a ganiateir mewn safleoedd â thrwydded alcohol, a disgwylir i ymgeiswyr gydymffurfio ag unrhyw godau ymarfer a chynghor a roddir gan y Comisiwn Gamblo yn ei gylch. Bydd angen Trwydded Gweithredu Bingo i gynnal Bingo Trosiant Uchel.

2.14 Safleoedd Betio

Peiriannau betio:

Terfynellau Betio Hunanwasanaeth (SSBTs):

Mae'r Ddeddf yn darparu nad yw peiriant yn beiriant gamblo os cafodd ei lunio neu ei addasu i'w ddefnyddio i fetio ar ddigwyddiadau go iawn yn y dyfodol. Gall safleoedd betio gynnig peiriannau sy'n derbyn betiau ar ddigwyddiadau byw, megis rasio ceffylau, fel rhywbeth yn lle betio dros y cownter. Nid yw'r "peiriannau betio" hyn yn beiriannau gamblo; dim ond awtomeiddio proses y mae modd ei gwneud yn bersonol a wnânt, ac felly, nid oes angen eu rheoli fel peiriannau gamblo.

Fodd bynnag, lle mae peiriant ar gael i gymryd betiau ar rasys rhithwir (hynny yw, canlyniadau a/neu ddelweddau sy'n cael eu cynhyrchu gan gyfrifiadur i fod yn debyg i rasys neu ddigwyddiadau eraill), mae'r peiriant hwnnw **yn** beiriant gamblo ac yn cyfrif tuag at y nifer uchaf o beiriannau gamblo a ganiateir, a rhaid iddo fodloni'r cyfyngiadau categori perthnasol ar gyfer y safle.

Bydd y Cyngor, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn cymryd i ystyriaeth faint y safle, nifer y swyddi cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person-i-person, a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae betio yn drosedd i'r rhai o dan 18 oed) neu gan bobl fregus, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau y peiriannau betio y mae'r gweithredwr yn dymuno eu cynnig. Dylai'r safle hefyd arddangos manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau cymorth, e.e. GamCare.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan rai bwcis nifer o safleoedd yn eu hardal. Er mwyn sicrhau bod unrhyw anawsterau i gydymffurfio yn cael eu cydnabod a'u datrys ar y cam cynharaf, gofynnir i weithredwyr roi pwynt cyswllt unigol i'r Awdurdod. Dylai'r pwynt cyswllt fod yn unigolyn ar lefel uchel a bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag ef/hi yn gyntaf os ceir unrhyw ymholiadau neu anawsterau yn ymwneud â chydymffurfiaid.

2.15 Traciau

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall fod un, neu fwy nag un, drwydded safle'n berthnasol i draciau, ond bod pob trwydded yn berthnasol i rannau penodedig o'r trac. Ar sail Canllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd y Cyngor yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. gwarchod plant a phobl fregus rhag bod gamblo'n peri niwed iddynt neu'n camfanteisio arnynt) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd ar wahân i'r gwahanol fathau o safle a bod plant yn cael eu gwahardd o ardaloedd gamblo lle na chânt fynediad.

Felly, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ceisydd am drwydded safle ddangos fod ganddo fesurau addas i sicrhau nad yw plant yn cael mynediad i gyfleusterau gamblo ar gyfer oedolion yn unig. Nodwyd y bydd plant a phobl ifanc yn cael mynd i rannau o draciau lle caiff cyfleusterau ar gyfer betio eu darparu ar ddiwrnodau pan fo rasio cŵn a/neu rasio ceffylau'n digwydd, ond eu bod yn dal i gael eu gwahardd rhag mynd i ardaloedd lle caiff peiriannau gamblo (heblaw peiriannau categori D) eu darparu.

Gall y Cyngor ystyried mesurau i gyflawni'r amcanion trwyddedu, fel:

- Cynlluniau prawf oedran
- TCC
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn adeileddol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol

- Cynlluniau hunan-wahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gyflawn - mesurau enghreifftiol ydynt yn unig.

2.16 Peiriannau Gamblo

Caniateir sawl categori o beiriannau gamblo mewn safleoedd trwyddedig a safleoedd eraill, ac mae nifer y peiriannau a ganiateir ym mhob math o safle gamblo wedi'u nodi yn y Ddeddf. Does gan y Cyngor mo'r grym i osod terfynau gwahanol nac ymestyn na chyfyngu ymhellach ar categorïau'r peiriannau a ganiateir. Yr eithriad i hyn yw safleoedd â thrwydded alcohol sy'n meddu ar drwyddedau peiriannau gamblo, lle mae gan yr awdurdodau trwyddedu ddisgresiwn i nodi nifer y peiriannau gamblo a ganiateir. Yn ogystal â hynny, gosodir terfynau ar wahân yn y Ddeddf ar gyfer rhai mathau o drwyddedau a roddir gan awdurdodau trwyddedu. Mae tabl sy'n nodi'r peiriannau gamblo a ganiateir ym mhob math o safle ynghlwm yn Atodiad C.

Rhaid i bob chwaraewr fod o leiaf 18 oed ar gyfer pob peiriant categori A, B ac C, gan gynnwys peiriannau gamblo categori B3A sy'n cynnig gêmiau loteri. Fodd bynnag, nid oes oedran lleiaf i'r rhai sy'n chwarae peiriannau categori D. Rhaid i ddeiliad unrhyw hawlen neu drwydded safle gydymffurfio â'r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â lleoliad y peiriannau gamblo, y mynediad iddynt gan blant a phobl ifanc, a'u gwahaniad oddi wrth y peiriannau categori C a B os ydynt wedi'u lleoli ar yr un safle.

Pan fo'r ymgeisydd yn dal Trwydded Weithredol Betio Cronfa ac yn mynd i ddefnyddio'r hawl ar gyfer pedwar peiriant gamblo, dylai'r peiriannau (ac eithrio peiriannau categori D) gael eu lleoli mewn ardaloedd lle gwaherddir plant.

2.17 Peiriannau Betio

Bydd y Cyngor, yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, yn cymryd i ystyriaeth faint y safle a gallu'r staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae betio'n drosedd i'r rhai o dan 18 oed) neu gan bobl fregus, wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau y peiriannau betio y mae'r gweithredwr yn dymuno eu cynnig.

2.18 Ceisiadau a Chynlluniau

Mae'r Ddeddf Gamblo a'r Rheoliadau yn gofyn i geiswyr gyflwyno cynlluniau'r safleoedd gyda'u ceisiadau, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor y wybodaeth angenrheidiol i farnu'n gytbwys a yw'r safle yn addas ar gyfer gamblo. Byddant yn cael eu defnyddio hefyd gan y Cyngor i drefnu archwiliadau o'r safle yn y dyfodol.

Dylai cynlluniau ar gyfer traciau gael eu tynnu ar raddfa ddigon manwl i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.

Gall rhai traciau fod ar dir amaethyddol lle nad oes wal na ffens allanol yn diffinio'r terfyn, fel traciau rasio o fan i fan. Mewn achosion o'r fath, lle caiff tâl mynediad ei godi, fe all deiliaid trwyddedau safle trac godi adeileddau dros dro i gyfyngu ar y fynediad i'r safle.

Yn yr achosion prin pan nad oes modd diffinio'r terfyn allanol, mae'n debygol na fydd y trac dan sylw wedi cael ei lunio'n benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau chwaraeon neu rasys yn aml. Mewn achosion o'r fath, fe all fod yn well darparu cyfleusterau betio trwy hysbysiadau defnydd achlysurol lle nad oes angen diffinio terfynau'r safle.

Mae'r Cyngor yn derbyn ei fod weithiau'n anodd diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau. Nid oes angen dangos yr union fan lle caiff cyfleusterau betio eu darparu ar gynlluniau traciau, yn rhinwedd y ffaith fod betio'n cael ei ganiatáu yn unrhyw ran o'r safle ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â lleoli union fannau'n fanwl ar rai mathau o drac. Dylai ceiswyr roi gwybodaeth ddigonol er mwyn i'r Cyngor hwn allu bodloni ei hun fod y cynllun yn dangos y prif ardaloedd lle gallai betio ddigwydd. O ran caeau rasys yn arbennig, rhaid dangos unrhyw ardal fetio sy'n amodol ar y "rheol pum gwaith" (a elwir yn gyffredin yn "gylchoedd betio") ar y cynllun.

2.19 Ffeiriau Teithiol

Lle defnyddir peiriannau categori D a/neu gamblo am wobrau cyfle cyfartal mewn ffeiriau teithiol heb hawlen, mae'r Cyngor hwn yn gyfrifol am benderfynu a yw'r gofyniad statudol fod y cyfleusterau gamblo ddim mwy nag adloniant atodol yn y ffair, yn cael ei fodloni.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a yw'r ceisydd yn dod o fewn y diffiniad statudol o ffair deithiol, yn unol ag adran 286 o'r Ddeddf Gamblo 2005.

Nodwyd bod yr uchafswm statudol o 27 diwrnod i'r tir gael ei ddefnyddio fel ffair yn berthnasol ar sail blwyddyn galendr. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r darn tir lle mae'r ffeiriau i gael eu cynnal, p'un ai'r un ffeiriau teithiol ynteu rhai gwahanol sy'n defnyddio'r tir. Bydd y Cyngor hwn yn gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir sy'n croesi ein ffiniau yn cael ei fonitro fel nad eir dros y terfynau statudol.

2.20 Datganiadau Darpariaethol

Gall datblygwyr fod eisiau gwneud cais i'r Cyngor hwn am ddatganiadau darpariaethol cyn mynd i contract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir, er mwyn barnu a yw'n werth dwyn datblygiad ymlaen yng ngoleuni'r angen i gael trwydded safle. Nid oes angen i'r ceisydd ddal trwydded weithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad darpariaethol.

Mae adran 204 o'r Ddeddf Gamblo yn darparu i berson wneud cais i'r Cyngor am ddatganiad darpariaethol ar gyfer y safle y mae ef/hi:

- yn disgwyl ei adeiladu;

- yn disgwyl ei newid; neu
- yn disgwyl cael hawl i'w feddiannu.

Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad darpariaethol yr un fath â'r un ar gyfer cais am drwydded safle. Mae'n orfodol i'r ceisydd roi rhybudd o'r cais yn yr un modd â gwneud cais am drwydded safle. Gall awdurdodau cyfrifol a rhai â diddordeb gyflwyno sylwadau ac mae hawliau i apelio.

Yn wahanol i'r cais am Drwydded Safle, nid oes rhaid i'r ymgeisydd feddu ar Drwydded Weithredu neu fod wedi gwneud cais am un i'r Comisiwn Gamblo (heblaw yn achos trac) ac nid oes rhaid iddo fod â'r hawl i feddiannu'r safle sy'n destun y cais dros dro.

Yna, gall deiliad Datganiad Darpariaethol wneud cais am Drwydded Safle unwaith y caiff y safle ei adeiladu, ei newid neu ei gaffael. Bydd y Cyngor yn cael ei gyfyngu o ran y materion y gall eu hystyried wrth benderfynu'r cais am Drwydded Safle ac, o ran sylwadau ar geisiadau am Drwydded Safle sy'n dilyn caniatáu Datganiad Darpariaethol, nid oes modd ystyried sylwadau ychwanegol gan awdurdodau perthnasol na'r rhai â diddordeb oni bai:

- eu bod yn ymwneud â materion na fyddai modd iddynt gael sylw ar adeg y Datganiad Darpariaethol; neu
- eu bod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ceisydd.

Yn ogystal â hynny, gall y Cyngor wrthod y Drwydded Safle (neu ei rhoi ar delerau gwahanol i'r rhai a roddwyd ar y Datganiad Darpariaethol) ddim ond trwy gyfeirio at faterion:

- na fyddai wedi gallu cael eu codi gan wrthwynebwyr ar adeg y Datganiad Darpariaethol;
- sydd ym marn y Cyngor yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr; neu
- lle na chafodd y safle ei adeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais. Rhaid i hyn fod yn newid sylweddol o'r cynllun ac mae'r Cyngor hwn yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda'r ceisydd cyn gwneud penderfyniad.

3. Hawlenni/Hysbysiadau Defnydd Achlysurol a Thros Dro

Dyma restr o'r dulliau awdurdodi dan sylw:

- Hawlenni Canolfannau Adloniant i'r Teulu (Didrwydded) (uFEC)
- Hawlenni Gamblo am Wobr
- Hawlenni Peiriannau Gamblo mewn Safleoedd Trwyddedig
- Hawlenni Clwb Gamblo
- Hawlenni Peiriannau Clwb Gamblo
- Hysbysiadau Defnydd Dros Dro (TUNs)
- Hysbysiadau Defnydd Achlysurol (OUNs)

Mae tabl sy'n dangos yr hawl i beiriannau gamblo i'w weld yn Atodiad D.

3.1 Hawlenni Peiriannau Gamblo mewn Canolfannau Adloniant i'r Teulu (Didrwydded)

Dim ond safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cynnig peiriannau gamblo a gaiff gynnal Canolfan Adloniant i'r Teulu yn Ddidrwydded. O ganlyniad, fel arfer, ni chaniateir canolfan siopa gyfan, maes awyr, gorsaf wasanaethau ar y draffordd neu rywbeth tebyg mewn safle o'r fath. Yn nodweddiadol, wrth wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu, bydd y peiriannau wedi'u gosod mewn ardal amgaeedig benodol a'u diffinio'n amlwg.

Lle nad yw safle'n dal Trwydded Safle ond yn dymuno darparu peiriannau gamblo categori D, gall wneud cais i'r Cyngor am yr hawlen hon.

Dylid nodi bod y ceisydd yn gorfod dangos y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, i ddarparu peiriannau gamblo i'w defnyddio, ac y byddai, felly, yn gwahardd unrhyw safle a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n bennaf at unrhyw ddibenion eraill, e.e. ffreuturau, bwyd sydyn i fynd, canolfannau hamdden, garejis a gorsafoedd petrol, a swyddfeydd tacsis.

Mae modd caniatáu cais am hawlen ddim ond os yw'r Cyngor yn fodlon y defnyddir y safle fel Canolfan Adloniant Ddidrwydded i'r Teulu, ac yr ymgynghorwyd â Phrif Swyddog yr Heddlu ynghylch y cais.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ceisydd ddangos bod polisïau a gweithdrefnau'n bodoli i amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyd-destun hwn, nid yw niwed yn cael ei gyfyngu i niwed oherwydd gamblo, ond mae'n cynnwys ystyriaethau ehangach ym maes amddiffyn plant. Bydd effeithlonrwydd polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael ei ystyried yn ôl eu teilyngdod. Fodd bynnag, gallant gynnwys mesurau/hyfforddiant priodol i staff o ran amau plant ysgol sy'n triwanta yn y safle, mesurau/hyfforddiant sy'n cwmpasu'r modd y byddai staff yn delio â phlant ifanc iawn heb eu goruchwyllo yn y safle, neu blant y tybir eu bod yn achosi problemau ar/o gwmpas y safle.

Bydd y Cyngor hwn hefyd yn disgwyl, ar sail Canllawiau'r Comisiwn Gamblo, bod ceiswyr yn dangos y canlynol:

- dealltwriaeth lawn o uchafswm y betiau a'r gwobrau gamblo a ganiateir yn y Canolfannau Adloniant Ddidrwydded i Deuluoedd;
- nad oes gan y ceisydd unrhyw euogfarnau perthnasol (y rhai sydd wedi'u nodi yn Atodlen 7 y Ddeddf, a
- bod staff wedi cael eu hyfforddi i fod â dealltwriaeth lawn o'r betiau a'r gwobrau mwyaf.

Dylid nodi na all y Cyngor osod amodau ar y math hwn o hawlen.

3.2 Hawlenni Peiriannau Gamblo mewn Safleoedd â Thrwydded Alcohol

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i sefydliadau sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed ar eu safleoedd, fel eu bod yn cael 2 beiriant gamblo categori C a/neu D yn awtomatig. Y cyfan sydd raid i'r sefydliad wneud yw hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu. Gall y Cyngor ddileu'r caniatâd awtomatig o ran unrhyw safle penodol os:

- nad yw darparu'r peiriannau yn rhesymol gyson â bodloni'r amcanion trwyddedu;
- bod gamblo wedi digwydd ar y safle a dorrodd un o amodau adran 282 y Ddeddf Gamblo (h.y. bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu i'r Awdurdod Trwyddedu, bod ffi wedi'i ddarparu, a'i fod yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant);
- bod y safle'n cael ei ddefnyddio yn bennaf ar gyfer gamblo; neu
- bod trosedd o dan y Ddeddf Gamblo wedi'i chyflawni ar y safle.

Os yw safle'n dymuno cael mwy na 2 beiriant, rhaid i'r Cyngor ystyried y cais hwnnw ar sail *"materion y mae'n credu sy'n berthnasol"*. Mae'r Cyngor yn ystyried y bydd y materion hyn yn cael eu penderfynu fesul achos ond, yn gyffredinol, bydd yn ystyried yr angen i warchod plant a phobl fregus rhag niwed neu gam-fanteisio oherwydd gamblo. At hynny, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ceisydd ei ddarbwyll y bydd mesurau digonol yn eu lle i sicrhau nad yw'r rhai dan 18 oed yn cael mynediad at y peiriannau gamblo i oedolion yn unig. Y math o fesurau fydd yn bodloni'r Cyngor o ran atal unrhyw fynediad, yw bod y peiriannau i oedolion yng ngolwg y bar, neu yng ngolwg staff a fydd yn gweld nad yw'r rhai dan 18 oed yn gallu'u defnyddio. Gall hysbysiadau ac arwyddion fod o gymorth hefyd. O ran diogelu pobl fregus, gall ceiswyr ystyried darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Cydnabyddir y gall rhai safleoedd â Thrwydded Alcohol wneud cais am Drwydded Safle ar gyfer eu hardaloedd trwyddedig nad ydynt yn gysylltiedig ag alcohol. Yn ôl bob tebyg, byddai angen gwneud cais am hyn a'i drin fel Trwydded Safle ar gyfer Canolfan Gamblo i Oedolion.

Dylid nodi y gall y Cyngor benderfynu caniatáu'r cais gyda nifer llai o beiriannau a/neu wahanol gategori o beiriannau na'r hyn a geisiwyd. Nid oes modd pennu amodau (heblaw'r rhain).

Dylid nodi hefyd bod deiliad hawlen yn gorfod cydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant.

3.3 Hawlenni Gamblo am Wobr

Mae gan y Cyngor hawl i baratoi "Datganiad Egwyddorion" er mwyn pennu materion y mae'r Awdurdod hwn yn bwriadu eu hystyried wrth benderfynu pa mor addas yw'r ceisydd i gael hawlen.

Mae hefyd yn pennu y dylai ceiswyr nodi y mathau o gamblo y maent yn bwriadu eu cynnig ac y dylent allu dangos y canlynol:

- eu bod yn deall y terfynau ar fetiau a gwobrau a nodir mewn Rheoliadau;
- bod y gamblo sy'n cael ei gynnig o fewn y gyfraith; a hefyd
- bod polisiau eglur yn bodoli sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i amddiffyn plant rhag niwed.

Wrth wneud ei benderfyniad ar gais am yr hawlen hon, nid yw'r Awdurdod Trwyddedu'n gorfod ystyried yr amcanion trwyddedu ond rhaid iddo ystyried unrhyw ganllawiau o eiddo'r Comisiwn Gamblo.

Dylid nodi bod amodau yn Neddf Gamblo 2005 y mae'n rhaid i ddeiliad yr hawlen gydymffurfio â nhw, ond ni chaiff yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau. Dyma amodau'r Ddeddf:

- Rhaid cydymffurfio â'r terfynau i ffioedd cyfrangoiad, yn unol â'r rheoliadau;
- Rhaid dyrannu pob cyfle i gymryd rhan yn y gamblo ar y safle lle mae'r gamblo yn digwydd, ac ar un diwrnod; rhaid chwarae gêm a'i chwblhau ar y diwrnod y mae'r cyfleoedd yn cael eu dyrannu; a rhaid i ganlyniad y gêm gael ei chyhoeddi ar y safle ar y diwrnod y caiff ei chwarae;
- Rhaid i'r wobwr ar gyfer y gêm ddim bod yn uwch na'r swm a bennwyd yn y rheoliadau (os yw'n wobwr ariannol), neu'r gwerth rhagnodedig (os nad yw'n wobwr ariannol); ac
- Ni ddylai cymryd rhan yn y gamblo rhoi'r hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw gamblo arall.

3.4 Hawlenni Gamblo a Hawlenni Peiriannau mewn Clybiau

Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr (ond nid Clybiau Masnachol) wneud cais am Hawlen Gamblo mewn Clwb neu Hawlen Peiriannau Gamblo mewn Clwb. Bydd yr Hawlen Gamblo mewn Clwb yn caniatáu peiriannau gamblo (3 pheiriant categori B, C neu D), gamblo am wobrau cyfle cyfartal a gêmiau siawns yn y safle. Gall Clybiau Aelodau, Sefydliadau Glowyr a Chlybiau Masnachol wneud cais am Hawlen Peiriannau mewn Clwb. Bydd Hawlen Peiriannau Gamblo mewn Clwb yn caniatáu peiriannau gamblo (3 pheiriant o categori B, C neu D) yn y safle. Ni chaiff Clybiau Masnachol osod peiriannau gamblo categori B3A sy'n cynnig gêmiau loteri yn eu clwb.

Rhaid i'r Cyngor fodloni ei hun bod y clwb yn ateb gofynion y Ddeddf i gael Hawlen Gamblo mewn Clwb. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried nifer o faterion a amlinellwyd yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y clwb, amllder y gamblo, ac aelodaeth o fwy na 25.

Rhaid cynnal y clwb "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" at ddibenion heblaw gamblo, oni bai fod rheoliadau ar wahân yn caniatáu'r gamblo. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi llunio rheoliadau ac mae'r rhain yn cwmpasu clybiau brij a chwist.

Gall y Cyngor wrthod cais ar y seiliau canlynol yn unig:

- (a) Nid yw'r ceisydd yn ateb gofynion clwb aelodau, clwb masnachol neu sefydliad lles glowyr ac, felly, nid oes ganddo hawl i dderbyn y math o hawlen y gwnaed cais amdani;
- (b) Mae safle'r ceisydd yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;
- (c) Mae'r ceisydd wedi troseddu dan y Ddeddf neu wedi torri amodau'r hawlen wrth ddarparu cyfleusterau gamblo;
- (d) Cafodd hawlen a ddaliwyd gan y ceisydd ei dileu yn y deng mlynedd flaenorol; neu
- (e) Cyflwynwyd gwrthwynebiad gan y Comisiwn neu'r Heddlu.

Mae gweithdrefn "garlam" ar gael hefyd dan y Ddeddf ar gyfer safleoedd sy'n dal Tystysgrif Safle Clwb dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12, Paragraff 10). Ni all clybiau masnachol ddal Tystysgrifau Safle Clwb dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac, felly, ni allant ddefnyddio'r drefn garlam. Fel y dywed Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol: "Dan y weithdrefn garlam nid oes unrhyw gyfle i'r Comisiwn na'r heddlu wneud gwrthwynebiadau, ac mae llai o sail y gall Awdurdod wrthod hawlen arni" a'r "sail i wrthod cais dan y broses yw:

- (a) y sefydlwyd y clwb yn bennaf ar gyfer gamblo, heblaw gamblo a bennwyd dan Atodlen 12;
- (b) yn ogystal â'r gamblo a bennwyd, bod y ceisydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo arall; neu
- (c) y cafodd Hawlen Gamblo Clwb neu Hawlen Peiriant Clwb a roddwyd i'r ceisydd ei dileu yn y deng mlynedd diwethaf."

Mae amodau statudol ar Hawlenni Gamblo Clwb nad oes unrhyw blentyn yn defnyddio peiriant categori B neu C yn y safle a bod y deiliad yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol y Cod Ymarfer ynghylch lleoliad a gweithrediad peiriannau gamblo.

3.5 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro

Mae Hysbysiadau Defnydd Dros Dro'n caniatáu gamblo mewn safleoedd lle nad oes Trwydded Safle ond lle mae gweithredwr gamblo'n dymuno defnyddio'r safle dros dro i ddarparu cyfleusterau gamblo. Yn ôl y Comisiwn Gamblo, byddai safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer Hysbysiad Defnydd Dros Dro yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a chanolfannau chwaraeon.

Dim ond i berson neu gwmni sy'n dal Trwydded Weithredu berthnasol, h.y. Trwydded Weithredu Casino Heb fod o Bell, y gellir rhoi Hysbysiad Defnydd Dros Dro.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i benderfynu pa ffurf ar gamblo y gall Hysbysiadau Defnydd Dros Dro eu hawdurdodi ac, ar adeg ysgrifennu'r Datganiad hwn, mae'r rheoliadau perthnasol [Offeryn Statudol rhif 3157: Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Hysbysiadau am Ddefnydd Dros Dro) 2007] yn datgan nad oes modd defnyddio Hysbysiadau Defnydd Dros Dro i ganiatáu cyfleusterau ar gyfer gamblo cyfle cyfartal yn unig, lle bwriedir i'r gamblo gynhyrchu enillydd sengl, sy'n golygu'n ymarferol twrnameintiau pocer.

Mae nifer o gyfyngiadau statudol mewn perthynas â Hysbysiadau Defnydd Dros Dro. Caiff ystyr "safle" yn Rhan 8 o'r Ddeddf ei thrafod yn Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo. Fel yn achos "safleoedd", bydd y diffiniad o "set o safleoedd" yn gwestiwn o ffaith yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y Ddeddf, diffinnir bod "safle" yn cynnwys "unrhyw le". Wrth ystyried a yw lle yn cwmpo o fewn y diffiniad o "set o safleoedd", bydd y Cyngor yn ystyried, ymhlith pethau eraill, perchenogaeth/meddiannaeth a rheolaeth y safle.

Yn unol â chymeradwyaeth Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol, mae'r Cyngor hwn yn disgwyl gwrthwynebu hysbysiadau pan fo'n ymddangos mai eu heffaith fyddai caniatáu gamblo rheolaidd mewn man y gellid ei ddisgrifio fel un set o safleoedd.

3.6 Hysbysiadau Defnydd Achlysurol

Lle mae betio ar drac yn digwydd ar 8 niwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr, gellir caniatáu betio trwy Hysbysiad Defnydd Achlysurol (OUN) heb fod angen Trwydded Safle Lawn. Y bwriad y tu ôl i'r Hysbysiadau hyn yw caniatáu i weithredwyr betio trwyddedig sydd â chaniatâd priodol y Comisiwn, i ddefnyddio traciau am gyfnodau byr ar gyfer betio, cyhyd â bod y digwyddiad o natur dros dro ac anaml (o dan yr amgylchiadau hyn, mae'r Hysbysiadau'n hepgor yr angen am Drwydded Safle Betio ar gyfer traciau).

Gellir cynnal nosweithiau rasys anfasnachol i godi arian fel digwyddiadau betio mewn lleoliadau chwaraeon o dan awdurdod yr OUN, p'un a yw'r digwyddiad chwaraeon sy'n cymryd betiau yn cael ei gynnal yn y lleoliad hwnnw ai peidio. At hynny, nid oes angen i'r digwyddiad chwaraeon sydd, neu a fydd, yn cymryd betiau, gael ei gynnal yr un pryd â'r betio o dan yr OUN.

Ychydig iawn o ddewis sydd gan y Cyngor o ran yr hysbysiadau hyn heblaw sicrhau na chaiff y terfyn statudol o 8 niwrnod mewn blwyddyn galendr ei dorri. Serch hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y diffiniad o "trac" ac a yw ceiswyr yn cael manteisio ar yr hysbysiad.

4. Loteriau Cymdeithasau Bach

Mae diffiniad Deddf Gamblo 2005 o loteri a nodir isod yn dweud bod hyrwyddo neu hwyluso loteri yn anghyfreithlon, ac eithrio os yw'n ymwneud ag unrhyw un o'r ddau gategori loteri a ganiateir, sef:

- loteriau trwyddedig – mae'r rhain yn gymdeithasau loteri a loteriau a gynhelir er budd awdurdodau lleol, a reoleiddir gan y Comisiwn ac sy'n gofyn am Drwyddedau Gweithredu;
- loteriau a eithrir – mae pedwar math o loteri a eithrir, a ganiateir dan Atodiad 11 y Ddeddf, gan gynnwys loteriau cymdeithasau bychain.

Loteri yw unrhyw drefniant sy'n bodloni'r holl feini prawf mewn disgrifiad statudol o naill ai loteri syml neu loteri gymhleth, yn unol ag adran 14 y Ddeddf.

"Cymdeithas" yw'r gymdeithas, neu unrhyw gangen ar wahân o gymdeithas felly, y caiff loteri ei hyrwyddo ar ei rhan, ac sydd wedi'i sefydlu fel sefydliad anfasnachol. Mae adran 19 o'r Ddeddf yn diffinio cymdeithas felly os yw wedi ei sefydlu a'i chynnal:

- at ddibenion elusennol, fel y'u diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2006;
- at ddibenion galluogi cyfranogiad mewn, neu gynorthwyo chwaraeon, athletau neu weithgaredd diwylliannol;
- at unrhyw ddiben anfasnachol arall ac eithrio elw preifat.

Mae'n rhaid i'r gymdeithas fod wedi'i sefydlu ar gyfer un o'r dibenion a ganiateir, fel y nodir yn adran 19 o'r Ddeddf, ac mae'n rhaid i elw unrhyw loteri fynd at y dibenion hynny. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas â'i hunig ddiben yw hwyluso loteriau.

Mae gan awdurdodau lleol hawl i weithredu eu loteriau eu hunain, ond ni chânt wneud hynny oni chânt drwydded gan y Comisiwn Gamblo. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi o leiaf 20% o elw'r cyfryw loteriau at ddiben y mae ganddynt bŵer i fynd i wariant ar ei gyfer; hefyd, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â darpariaethau perthnasol eraill y Ddeddf. At hynny, mae'n bosibl y bydd angen iddynt ddal Trwydded Gweithredu Gamblo o Bell, rhag ofn y byddant am werthu tocynnau loteri trwy ddulliau electronig neu dechnolegol o bell, megis dros y ffôn, trwy e-bost neu'r rhyngrwyd.

Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer cofrestriadau loteriau bychain fod ar y ffurf a ddisgrifir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a chynnwys tâl cofrestru a chopi o'r telerau ac amodau a'r cyfansoddiad i ddangos eu bod yn gymdeithas anfasnachol. Mae paragraffau 47 a 48 o Atodiad 11 y Ddeddf yn nodi'r seiliau y caiff awdurdodau trwyddedu wrthod ceisiadau i gofrestru loteriau cymdeithasau bychain.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loteriau cymdeithasau bach. Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r rhestr ganlynol, er nad yw'n gynhwysfawr, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni hwyr (rhaid i ffurflenni gael eu cyflwyno ddim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad y tynnwyd y loteri)
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir
- torri'r terfynau ar gyfer Loteriau Cymdeithasau Bach

Caniateir gamblo anfasnachol os yw'n digwydd mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel gweithgaredd atodol neu fel prif weithgaredd y digwyddiad. Mae digwyddiadau yn anfasnachol os nad oes unrhyw ran o'r enillion ar gyfer elw neu fudd preifat. Gellir defnyddio enillion y cyfryw ddigwyddiadau er budd un neu fwy o unigolion os yw'r gweithgaredd yn cael ei drefnu:

- gan, neu ar ran, elusen neu at ddibenion elusennol;
- er mwyn galluogi cyfranogiad mewn chwaraeon, athletau a gweithgareddau diwylliannol, neu gefnogaeth iddynt.

5. Penderfynu

5.1 Gweinyddu, Arfer a Dirprwyo Swyddogaethau

Yn unol â'r Ddeddf, gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor neu un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig, arfer pwerau a dyletswyddau'r Cyngor.

Y farn yw y bydd llawer o'r swyddogaethau o natur weinyddol yn bennaf heb feysydd dadleuol i'w gweld. Er mwyn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cost bydd y rhain, at ei gilydd, yn cael eu gwneud gan swyddogion.

Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'r swyddogaethau a'r penderfyniadau y dylid eu dirprwyo yn ôl cymeradwyaeth y canllawiau. Gall y Cyngor, serch hynny, gyfeirio unrhyw fater i'r Pwyllgor Trwyddedu neu'r Is-bwyllgor.

Mae'r rhestr ar gyfer dirprwyo swyddogaethau trwyddedu i'w gweld yn Atodiad B.

5.2 Y Drefn Apelio

Mae hawliau apelio'r rhai a gafodd gam gan benderfyniadau'r Cyngor wedi'u nodi yn adrannau 206 i 209 o'r Ddeddf 2005. Rhaid i apeliadau gael eu gwneud i'r Llys Ynadon ar gyfer yr ardal lle mae'r Awdurdod Trwyddedu a ystyriodd y cais wedi'i leoli.

Rhaid i'r apelydd gychwyn apêl trwy roi rhybudd o'r apêl i: Clerc yr Ynadon, Llys Ynadon Merthyr Tudful, Maes y Clastir, Merthyr Tudful, CF47 8BU, o fewn cyfnod o 21 diwrnod, sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y mae'r apelydd yn cael ei hysbysu gan yr Awdurdod Trwyddedu o'r penderfyniad y mae'n dymuno apelio yn ei erbyn.

Wrth benderfynu ar apêl, caiff y Llys:

- Wrthod yr apêl;
- Newid y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn am unrhyw benderfyniad arall y gallai'r Awdurdod Trwyddedu fod wedi'i wneud;
- Anfon yr achos i'r Awdurdod Trwyddedu i gael gwared ar yr apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys.
- Gwneud gorchymyn am gostau.

5.3 Rhoi Rhesymau dros Benderfyniadau

Gan ragweld apeliadau o'r fath, bydd y Cyngor yn rhoi rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymdrin â'r graddau y mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud mewn perthynas ag unrhyw godau ymarfer a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

5.4 Gweithredu Penderfyniad y Llys Ynadon

Cyn gynted ag y bo penderfyniad y Llys Ynadon wedi ei hysbysu i'r holl bartion, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn oedi cyn gweithredu, a bydd camau angenrheidiol yn cael eu cymryd ar unwaith oni bai bod llys uwch wedi gorchymyn atal camau o'r fath (er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol sydd yn mynd yn ei flaen). Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer unrhyw apêl arall yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon.

5.5 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn safle trwyddedig mewn cysylltiad â materion perthnasol i'r amcanion trwyddedu y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn y lle cyntaf, caiff achwynwyr eu hannog i gwyno'n uniongyrchol wrth ddeiliad y drwydded neu'r busnes dan sylw i chwilio am ddatrysiad lleol.

Pan fo parti â diddordeb wedi gwneud sylwadau dilys ynghylch safle trwyddedig, neu gais dilys i adolygu trwydded, gall yr Awdurdod Trwyddedu ddechrau trefnu cyfarfod cymodi i ymdrin â'r materion sy'n peri pryder a cheisio eglurder.

Ni fydd y broses yn gwrthwneud hawl unrhyw barti sydd â diddordeb i ofyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu a Gamblo ystyried eu gwrthwynebiadau dilys, neu i unrhyw ddeiliad trwydded wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

Rhoir ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau perthnasol oni bai eu bod yn un o'r eithriadau a restrir yn Adran 5.6 isod.

5.6 Adolygiadau

Mae modd i Awdurdodau Cyfrifol neu Rai â Diddordeb wneud cais am adolygiad. Fodd bynnag, y Cyngor sydd i benderfynu a ddylai'r adolygiad gael ei wneud ar

sail unrhyw godau ymarfer a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a yw'r cais am adolygiad yn wamal, yn drallodus, neu'n gais na fydd yn peri i'r Cyngor hwn newid/diddymu/atal y drwydded, neu'n gais sy'n sylweddol yr un fath â sylwadau neu geisiadau blaenorol am adolygiad.

Hefyd, gall y Cyngor gychwyn adolygu Trwydded Safle benodol, neu ddosbarth penodol o Drwyddedau Safle, ar sail unrhyw reswm a dybia'n briodol.

Unwaith y bydd y Cyngor wedi derbyn cais dilys am adolygiad, fe all awdurdodau cyfrifol a rhai â diddordeb gyflwyno sylwadau o fewn 28 diwrnod. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau 7 diwrnod ar ôl i'r cais gyrraedd y Cyngor, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o'r cais cyn pen 7 diwrnod o'i dderbyn.

Rhaid i'r Cyngor wneud yr adolygiad mor fuan ag y bo modd ar ôl i'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau fynd heibio.

Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r Cyngor gymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad â'r drwydded. Os oes cyfiawnhad dros gymryd camau, y canlynol yw'r dewisiadau sydd ar gael i'r Cyngor:

- ychwanegu, dileu neu newid amod trwydded a bennwyd gan y Cyngor;
- eithrio amod diofyn a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu newid eithriad o'r fath;
- atal trwydded y safle am gyfnod heb fod dros dri mis; a
- dirymu trwydded y safle.

Wrth benderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, rhaid i'r Cyngor ystyried yr egwyddorion yn adran 153 o'r Ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

Yn arbennig, gall y Cyngor hefyd lansio adolygiad o drwydded safle ar y sail nad yw deiliad y drwydded wedi darparu cyfleusterau gamblo ar y safle. Mae hyn er mwyn atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn ffordd sbeciannol heb fwriadu eu defnyddio.

Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i orffen, rhaid i'r Cyngor, mor fuan ag y bo modd, hysbysu'r canlynol o'i benderfyniad:

- deiliad y drwydded;
- y ceisydd am adolygiad (os oes un);
- y Comisiwn;
- unrhyw un a wnaeth sylwadau;
- Prif Swyddog yr Heddlu neu'r Prif Gwnstabl; a

- Comisiynwyr Ei Mawrhydi dros Gyllid a Thollau.

6. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP)

Yn ôl Deddf Gamblo 2005, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Gamblo gyflwyno un neu ragor o godau ymarfer ynghylch y dull o ddarparu cyfleusterau gamblo. Mae'n bosibl cyfeirio'r codau at ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol, neu at unrhyw berson arall sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau gamblo.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ystyried unrhyw godau ymarfer perthnasol a gyflwynir gan y Comisiwn dan adran 24 wrth arfer eu swyddogaethau, yn yr achos hwn:-

- *Amodau'r drwydded a chodau ymarfer (LCCP) y Comisiwn, sy'n berthnasol i ddeiliaid trwyddedau gweithredu neu bersonol y Comisiwn Gamblo;*
- Codau eraill - cod ymarfer y Comisiwn ar gyfer gamblo cyfle cyfartal a'i god ymarfer ar gyfer peiriannau gamblo mewn clybiau a safleoedd â thrwydded alcohol.

Mae'r LCCP yn cynnwys dau fath o ddarpariaeth:

Darpariaethau cod cyfrifoldeb cymdeithasol

Mae'r darpariaethau hyn yn disgrifio'r trefniadau y dylai pobl sy'n cynnig cyfleusterau gamblo eu gwneud at y dibenion canlynol:

- (a) sicrhau bod gamblo'n digwydd yn deg ac yn ddidwyll;
- (b) diogelu plant a phobl fregus eraill rhag niwed neu gamfanteisio arnynt oherwydd gamblo; a
- (c) rhoi cymorth i bobl y mae problemau sy'n gysylltiedig â gamblo yn effeithio arnynt, neu y gallai problemau felly effeithio arnynt.

Mae cydymffurfio â'r rhain yn amod ar gyfer trwyddedau gweithredu. Felly, os yw gweithredwr â thrwydded yn torri amod, gallai hyn arwain at y Comisiwn yn adolygu trwydded y gweithredwr gyda'r bwriad o atal, diddymu neu osod cosb ariannol, a byddai hefyd yn gwneud y gweithredwr yn agored i'w erlyn. Mae'r darpariaethau hyn mewn blychau llwyd yng ngweddill y ddogfen hon.

Darpariaethau'r cod cyffredin

Nid oes gan y rhain statws amod trwydded, yn achos gweithredwyr â thrwydded, ond maent yn nodi arfer dda.

Mae modd defnyddio codau ymarfer fel tystiolaeth mewn achosion troseddol neu sifil, ac mae'n rhaid eu hystyried mewn unrhyw achos lle mae'r llys neu'r tribiwnlys yn meddwl eu bod yn berthnasol, a chan y Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau. Gallai'r Comisiwn ystyried unrhyw achos o wyro oddi wrth

ddarpariaethau'r cod gan weithredwr, er enghraifft wrth adolygu trwydded (ond ni allai hyn arwain at gyflwyno cosb ariannol).

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi ei gwneud yn glir y gall gweithredwyr trwyddedig fabwysiadu dulliau gwahanol i'r rhai a nodir os ydynt wedi ystyried y ddarpariaeth ac yn gallu dangos bod dull gwahanol yn rhesymol yn yr amgylchiadau penodol; neu y byddai dull arall yn gweithredu mewn modd sydd yr un mor effeithiol.

Asesiadau Risg – Safleoedd

Mae'r LCCP yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddeiliaid trwydded sy'n cynnig gamblo yn eu safleoedd, asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu a chynnal polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'n rhaid i ddeiliaid trwydded ystyried unrhyw faterion perthnasol a ganfuwyd yn Natganiad Polisi (gamblo) yr awdurdodau trwyddedu wrth wneud eu hasesiadau risg.

Dylai deiliad trwydded hefyd gynnal neu ddiweddarau asesiad risg:

- wrth wneud cais am drwydded safle newydd;
- wrth wneud cais am amrywio trwydded safle bresennol;
- wrth ystyried unrhyw newid sylweddol yn yr ardal leol;
- wrth i newidiadau sylweddol yn y safle effeithio ar yr asesiad risg lleol presennol.

Dylai gweithredwyr gyflwyno asesiadau risg i awdurdodau trwyddedu pan wnânt eu ceisiadau, a dylent gadw copïau ohonynt yn eu safleoedd neu eu dangos ar gais, a bydd hyn yn rhan o weithdrefn y Cyngor ar gyfer archwilio neu ymchwilio i gwynion.

Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi yn ei ddatganiad polisi y materion y mae'n disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg, ac mae'r Cyngor hwn yn disgwyl i weithredwyr ystyried y materion canlynol wrth gynnal eu hasesiadau risg:

Safleoedd Betio Trac - Mae'r Comisiwn Gamblo'n nodi yn ei God LCCP fod gofyn i Weithredwyr wneud asesiad risg. Fodd bynnag, nid oes gofyn i Safleoedd Betio Trac geisio Trwydded Gweithredwyr gyda'r Comisiwn Gamblo ac felly, nid oes gofyn iddynt gynnal asesiad risg. Fodd bynnag, er budd amcanion Deddf Gamblo 2003, sef i) atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gynorthwyo trosedd; ii) sicrhau y cynhelir gamblo yn deg ac yn ddidwyl; iii) diogelu plant a phobl fregus eraill rhag eu niweidio neu'u hecsbloetio trwy gamblo, byddai'r Cyngor hwn yn disgwyl i Safleoedd Betio Trac gynnal asesiad risg ar gyfer eu safleoedd.

Byddai'r Cyngor yn argymhell bod y gweithredwyr yn ystyried y materion canlynol wrth wneud eu hasesiad risg.

Materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- sefydliadau, lleoedd neu ardaloedd lle disgwylir presenoldeb plant a phobl ifanc fel ysgolion, colegau, clybiau ieuenctid, parciau, meysydd chwarae a lleoliadau adloniant fel alïau bowlïo, sinemâu ayb;
- unrhyw safle lle mae plant yn ymgynnull gan gynnwys arosfannau bysiau, caffis, siopau, ac unrhyw le arall sy'n denu plant;
- achosion a gofnodwyd o ymgais i gamblo dan oed;
- cartrefi plant a chyfleusterau gofal.

Materion yn ymwneud ag oedolion bregus, gan gynnwys:

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithriadau ac achosion o gamblo dan oed;
- tueddiadau gamblo a allai adlewyrchu'r diwrnod ar gyfer taliadau ariannol megis diwrnodau cyflog neu daliadau budd-dal;
- trefniant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol am hunan-eithriadau a thueddiadau gamblo;
- agosrwydd safleoedd lle gall pobl fregus ymweld â hwy'n aml fel ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau dibyniaeth neu ganolfannau cymorth, mannau lle gall pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ayb;
- presenoldeb pobl sy'n cysgu allan;
- hostel a gwasanaethau cymorth ar gyfer y digartref;
- cyfleusterau cefnogi alcohol a chyffuriau.

Mae materion eraill y gellir eu hystyried yn cynnwys:

- materion ffydd, gan gynnwys yr holl enwadau crefyddol neu ffydd gan gynnwys agosrwydd at eglwysi, mosgiau, templau neu unrhyw fannau addoli arall;
- adeiladau cymunedol;
- gwneuthuriad economaidd yr ardal;
- economi'r nos yn y cyffiniau;
- problemau hysbys yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill na chafodd mo'u cynnwys.

Newidiadau sylweddol i'r safle

O bryd i'w gilydd, bydd gweithredwyr yn adnewyddu cynllun ac addurn eu safleoedd, sy'n annhebyg o arwain at adolygu asesiad risg y safle hwnnw. Fodd bynnag, os oes newidiadau sylweddol i'r safle a allai effeithio ar liniaru risgiau lleol, mae'n rhaid i weithredwr adolygu ei asesiad risg a'i ddiweddarau os oes angen, gan ystyried y newid a'r modd y gallai effeithio ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu.

Disgwylir i weithredwyr gamblo gynnal asesiad risg fel mater o drefn wrth ailddodrefnu safle neu newid y cynllun a'r mesurau rheoli mewnol. Os oes angen adolygu asesiadau risg y safle ar gyfer unrhyw newid, dylai'r gweithredwyr gamblo sicrhau bod system mewn lle i gofnodi a gweithredu unrhyw fesuriadau a nodir wrth gynnal yr adolygiad hwnnw.

Bydd y gweithredwr gamblo'n gyfrifol am ganfod pan fu newid sylweddol i'r safle. Er mwyn helpu gweithredwyr gamblo, mae'r Cyngor wedi rhoi'r rhestr ganlynol o enghreifftiau y gellir eu hystyried fel newid sylweddol i'r safle (gallai rhai ohonynt ofyn am amrywio'r drwydded safle bresennol).

- Unrhyw waith adeiladu neu ailddodrefnu a wneir wrth ail-leoli cyfleusterau gamblo o fewn y safle.
- Trosglwyddo trwydded yr adeilad i weithredwr newydd a fydd yn gweithredu'r safle yn ôl gweithdrefnau a pholisïau sy'n wahanol i rai'r trwyddedai blaenorol.
- Unrhyw newid i bolisïau mewnol y gweithredwr, sy'n arwain at yr angen am fesurau rheoli ychwanegol neu ddiwygiedig a/neu ailhyfforddi staff ar destun y newidiadau polisi hynny.
- Newid i fynedfa neu fynedfeydd y safle, er enghraifft newid deunydd y drysau o fetel â gwydr i ddrysau gwydr llawn, neu symud drysau am allan i rai am i mewn neu i'r gwrthwyneb.
- Rhoi cyfleusterau gamblo newydd yn y safle nad oedd ar gael i gwsmeriaid o'r blaen; er enghraifft: gêmau betio, dyfeisiau gamblo a ddeler mewn llaw, terfynellau betio hunanwasanaeth, neu beiriant gamblo â chategori gwahanol.
- Gweithredwr y safle'n gwneud cais am drwydded er mwyn i'r safle hwnnw fedru cynnig gweithgaredd dan weithdrefn reoliadol wahanol, er enghraifft, caniatáu gwerthu alcohol.

Fel yn achos yr enghreifftiau o newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol, nid yw'r uchod yn rhestr gyflawn o newidiadau sylweddol i safle.

Ni fydd y Cyngor, fel arfer cyffredinol, yn gofyn am gopi o'r asesiad risg a adolygwyd os bu newid sylweddol i'r safle trwyddedig, ac eithrio os yw'r newid yn un a fyddai'n gofyn am gais i gael amrywiad.

Amrywio trwydded y safle

Yr amrywiadau i drwyddedau safle yw'r rhai sy'n ofynnol o dan adran 187 y Ddeddf yn unig, ac ni fyddant yn cynnwys newid amgylchiadau megis newid yn enw'r safle neu gyfeiriad y trwyddedai ac ati.

Mae darpariaeth 10.1.1 yng nghod cyfrifoldeb cymdeithasol LCCP y Comisiwn, yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gamblo adolygu'r asesiad risg lleol a'i ddiweddarau os oes angen wrth baratoi cais i amrywio'r drwydded safle. Gallai gweithredwyr sy'n gwneud cais i'r Cyngor am amrywiad ystyried cyflwyno copi o'r asesiad risg lleol a adolygwyd wrth gyflwyno'r cais. Bydd hyn felly'n negyddu'r

angen i'r Cyngor wneud cais i weld copi o'r asesiad risg a gallai leihau'r tebygrwydd o wneud sylwadau ar gais.

Adolygiad arferol ar yr asesiad risg

Fel mater o arfer gorau, mae'r Cyngor yn argymhell bod gweithredwyr yn sefydlu gweithdrefn adolygu reolaidd o ran eu hasesiadau risg lleol. Gellir cynnal y rhaglen adolygu hon ochr yn ochr ag adolygiadau eraill ar gyfer y safle megis asesiadau risg parthed lechyd a Diogelwch. Byddai'r rhaglen adolygu'n sicrhau yr ystyrir yr asesiadau risg hyn yn rheolaidd, a'u diweddarau os oes angen, p'un ai a gafwyd "digwyddiadau sbarduno" fel y nodir uchod ai peidio.

Y gweithredwr gamblo fydd yn penderfynu pa mor aml y cynhelir yr adolygiadau hyn, ond argymhellir na ddylai mwy na thair blynedd fynd heibio cyn adolygu'r asesiadau. Mae'n bosibl y bydd gweithredwyr yn dymuno cynllunio eu hadolygiadau ar yr asesiadau risg lleol yr un pryd â Datganiad y Cyngor o Egwyddorion Trwyddedu ar Gamblo. Byddai hyn yn galluogi'r gweithredwyr gamblo i ystyried y Proffil Ardal Leol, sydd wedi ei gyhoeddi yn Natganiad y Cyngor o Egwyddorion Trwyddedu ar Gamblo.

Risgiau lleol a mesurau rheoli

Mae dwy ran benodol i'r broses asesu risgiau:

- asesu risgiau lleol
- pennu camau lliniaru addas i leihau'r risgiau hynny.

Mater i'r gweithredwr yw ffurf a chynnwys yr asesiad risg. Fodd bynnag, mae'r paragraffau isod yn darparu cyngor ac argymhellion ynghylch cynnwys a ffurf bosibl ar gyfer unrhyw asesiad risg.

Dylai'r risgiau y mae'r gweithredwyr yn eu canfod fod yn berthnasol i effaith bosibl y safle gamblo ar yr amcanion trwyddedu. Dylai gweithredwr gamblo nodi a rhestru'r holl risgiau lleol a ganfu, yn yr asesiad. Gall lefel risgiau felly amrywio o fod yn isel i fod yn uchel iawn, gan ddibynnu ar yr effaith bosibl ar yr amcanion trwyddedu a aseswyd gan y gweithredwr gamblo. Caiff lefel unrhyw risg effaith uniongyrchol ar y math a'r maint o fesurau rheoli fydd eu hangen, yn nhyb y gweithredwyr gamblo, i leihau'r cyfryw risg.

Bydd gweithredwyr eisoes yn asesu lleoliadau wrth ystyried safleoedd newydd neu wrth adolygu perfformiad eu safleoedd presennol. Caiff cynllun safle hefyd ei asesu i sicrhau y bydd yn ateb anghenion y gweithrediad gamblo, yn rhoi diogelwch i staff a chwsmeriaid, ac yn meddu ar gyfleusterau i gofnodi troseddau. At hynny, bydd gan weithredwyr bolisiâu a gweithdrefnau ar gyfer rhedeg safleoedd yn unol â gofynion statudol a rheoliadol eraill a roddir arnynt gan y Comisiwn ac asiantaethau eraill.

Bydd gweithredwyr eisoes yn gyfarwydd ag adnabod risgiau mewn perthynas ag iechedd a diogelwch a deddfwriaeth hylendid bwyd. Caiff asesiadau risg eu

defnyddio hefyd at ddibenion diogelwch a throseddau, er enghraifft gwyngalchu arian, ac fel rhan o arferion gorau'r gymdeithas fasnachu, megis Safe Bet Alliance.

Mae'r broses asesu risg lleol, er ei bod yn debyg, yn gofyn am ystod o ystyriaethau llawer ehangach wrth nodi risg lleol. Yn ôl darpariaeth 10.1.1 yng nghod cyfrifoldeb cymdeithasol LCCP y Comisiwn, mae'n ofynnol i weithredwyr gamblo ystyried yr ardal lle saif y safle a'r effaith o'i redeg ar yr amcanion trwyddedu.

Risgiau ardal leol

Mae nifer o ffactorau'n berthnasol i'r ardal leol y gallai gweithredwyr ystyried, sy'n annibynnol o'r hyn y mae'r gweithredwr yn credu yw ei farchnad darged. Y gweithredwr gamblo fydd yn pennu'r risgiau hyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achlysuron lle mae'r Comisiwn neu'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnig gwybodaeth ynghylch yr hyn maent yn ei ystyried fel risg lleol. Mae'n bosibl y manylir ar hyn yn y Datganiad Polisi Trwyddedu neu mewn dogfen ganllaw ar wahân - gellir dod o hyd i'r ddau ar wefan y Cyngor.

Bydd yr ardal leol yn wahanol, gan ddibynnu ar y safle a maint y gweithrediad. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gan neuadd bingo fawr ddalgylch ehangach na siop fetio sy'n gwasanaethu'r gymdogaeth, oherwydd ei gallu i ddenu cwsmeriaid o bellach i ffwrdd.

Risgiau gweithredu gamblo

Mae'r gweithrediad gamblo'n berthnasol i'r modd y caiff y safle ei redeg. Bydd hyn yn cynnwys polisiâu a gweithdrefnau'r gweithredwr, sydd wedi'u gosod i ateb gofynion y busnes, y Ddeddf a/neu'r darpariaethau cod penodol o fewn yr LCCP.

Dylai gweithredwyr gamblo adnabod risgiau gweithredol yn yr ardal leol i'r amcanion trwyddedu, ac yna ystyried a oes mesurau rheoli yn ychwanegol i'r rhai sydd eisoes mewn lle a fyddai'n lliniaru'r risg. Er enghraifft, os yw'n hysbys bod defnydd o gyffuriau anghyfreithlon yn yr ardal leol, gall y gweithredwr gamblo ystyried defnyddio mesurau rheoli, megis gosod cloeau magnetig ar ddrysau tai bach neu newid cynllun y tai bach i ddarbwylo pobl rhag eu defnyddio i gymryd cyffuriau yn anghyfreithlon.

Mae'n debygol y bydd canfod risgiau sy'n gysylltiedig â'r elfen hon o'r asesu yn debyg iawn ar gyfer pob safle, gydag amrywiadau bychain yn dibynnu ar unrhyw ffactorau penodol sy'n berthnasol i'r safle neu'r ardal leol.

Bydd y mesurau rheoli a osodir gan weithredwyr i liniaru unrhyw risg sy'n gysylltiedig â gweithrediad gamblo, yn dibynnu ar y math o weithgareddau gamblo a gynigir, y modd y mae'r cwmni yn gweithredu a maint y sefydliad.

Risgiau o ran dyluniad y safle

Mae dyluniad y safle yn ffactor pwysig iawn wrth ystyried risgiau lleol. Er enghraifft, gallai Canolfan Gamblo i Oedolion sydd mewn ardal â nifer uchel o blant a phobl ifanc ynddi drwy'r dydd, nodi bod y drysau ar y naill ochr yn cael eu defnyddio gan blant lleol fel llwybr byr i fynd trwodd i stryd gyfagos. Y camau lliniarol yn yr achos hwn fyddai petai'r gweithredwr gamblo yn cau un o'r drysau i'w atal rhag cael ei ddefnyddio fel llwybr byr.

Fel rhan o'r broses ddylunio, mae cynllun y safle'n ystyriaeth bwysig oherwydd y gallai dyluniad gwael beri risgiau sylweddol i un neu ragor o'r amcanion trwyddedu. Mae gan weithredwyr gamblo brofiad mewn dyluniad safle, ac yn aml gwneir yr ystyriaethau hyn yn ystod y cam cynllunio. Cynghorir gweithredwyr gamblo i sicrhau bod proses yn ei lle i gofnodi'r penderfyniadau allweddol yn fuan wrth gynllunio dyluniad yr adeilad, er mwyn ei chynnwys yn yr asesiad risg.

Risgiau o ran y dyluniad mewnol

Bydd y dyluniad a'r cynllun mewnol yn adlewyrchu gweithrediad y safle a'r math o gyfleusterau gamblo y mae'n eu cynnig. I rai safleoedd, bydd y dyluniad wedi'i gyfyngu oherwydd amodau gorfodol ar y drwydded safle gamblo, megis y pellter rhwng y byrddau gamblo a'r cyfleusterau gamblo eraill mewn casinos, a chyfyngiadau ar leoliadau'r peiriannau ATM.

Dylai gweithredwyr asesu'r risgiau a achosir gan gynllun mewnol y safleoedd a lleoliadau'r cyfleusterau gamblo ynddynt. Er enghraifft, os rhoddir peiriant gamblo mewn golwg uniongyrchol o'r cownter talu, bydd staff yn gallu goruchwyllo ymddygiad y chwaraewyr ac ymyrryd os oes pryder ynghylch patrymau gwario'r cwsmeriaid. Gall staff hefyd fonitro'r defnydd ar y peiriannau a herio unrhyw gwsmeriaid y credant sydd o dan 18 oed, yn achosi difrod i'r peiriannau, neu'n ceisio gwyngalchu arian. Trwy gynnal asesiad syml o'r lleoliad gorau ar gyfer y peiriannau hyn, gall gweithredwyr ostwng y risg yn sylweddol i'r amcanion trwyddedu.

Risgiau o ran y dyluniad allanol

Bydd gwedd allanol y safle yn hysbyseb fawr i'r gweithredwr gamblo. Fodd bynnag, dylid asesu'r dyluniad ar sail y risg cysylltiedig. Gall gweithredwyr nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r dyluniad a chyflwyno mesurau rheoli ar sail y risg hwnnw. Er enghraifft, os oes gan safle lawer o wyneb gwydr mewn ardal sy'n dioddef llawer o ddifrod troseddol, gallai gweithredwyr ystyried bod y risg o gael difrod i wydr o wydnwch safonol yn uchel a chyflwyno mesur rheoli megis llenni metel a/neu gamerâu TCC allanol.

Mesurau rheoli

Gan ddibynnu ar natur y ffactorau risg, gallai'r mesurau rheoli a ganfuwyd i liniaru'r risgiau fod yn gyfuniad o systemau, dyluniadau a mesurau corfforol. Gall

mesurau rheoli sy'n berthnasol i systemau fod yn fesurau sydd wedi'u gosod trwy bolisiau a gweithdrefnau. Gall y rhain fod naill ai yn systemau sy'n berthnasol i safleoedd y gweithredwr i gyd neu'n systemau sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer safleoedd penodol i drin ffactor risg lleol. Gall mesurau rheoli system gynnwys hyfforddiant staff yn ogystal â pholisiau a gweithdrefnau diogelwch. Gallant hefyd fod yn berthnasol i roi gweithwyr diogelwch wrth fynedfeydd, gweithredu meini prawf aelodaeth a/neu gynnig cymorth i grwpiau bregus lleol trwy ddulliau ariannol neu eraill.

Mae mesurau rheoli dyluniad yn fesurau sydd wedi'u hymgorffori yn nyluniad y safle. Gallant gynnwys lleoliad y cyfleusterau gamblo a dyluniad a lleoliad y cownteri talu o fewn y safle a dyluniad allanol y safle. Er enghraifft, gallai mesur rheoli tu mewn y safle gynnwys symud cownter talu o'r tu gefn i flaen y siop ger y brif fynedfa. Gallai mesur i reoli'r dyluniad allanol gynnwys ei deilwra ar gyfer mynd i'r afael â risgiau lleol, er enghraifft arddangosiadau ffenestr mwy agored fel bod staff yn gallu gweld allan o'r adeilad neu gynllun i osgoi denu plant i'r adeilad.

Mae'r mesurau rheoli terfynol yn berthnasol i fesur materol penodol a fydd yn mynd i'r afael â ffactor risg penodol. Gallai'r mesurau rheoli materol gynnwys, er enghraifft, larymau, camerâu TCC, drysau, cloeau magnetig, cloeau amser ar sêffs, pecynnau poer, llenni metel, systemau mwg, goleuadau uwchfioled mewn tai bach.

Gallai'r mesurau rheoli a ganfuwyd i liniaru risgiau fod yn gyfuniad o systemau, dyluniadau a mesurau materol. Er enghraifft, er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau risg a gwyd pan fo plant yn mynd i safle gamblo ar gyfer pobl dros 18 oed yn unig, gallai'r gweithredwr ddefnyddio'r mesurau rheoli canlynol:

Systemau: Cerdyn PAS neu bolisiau gwirio oedran, cynllun her 21, hyfforddi staff a staff drws.

Dyluniad: Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r safle - bydd cynllun y fynedfa'n galluogi staff a gweithwyr diogelwch i wyllo'r rhai sy'n mynd i mewn i'r safle a'u herio ar sail oedran.

Materol: Cloeau drws magnetig a sganiau cardiaid adnabod.

Cam 1: Cynnal asesiad risg lleol

Argymhellir y dylid cynnal yr asesiad risg gam wrth gam. Mae'n bosibl y bydd gweithredwyr gamblo'n asesu'r ardal leol yn gyntaf ac yn nodi'r ffactorau risg perthnasol, ac yna'n asesu'r gweithrediad gamblo ac yn olaf, yn asesu dyluniad y safle - yn fewnol ac yn allanol. Wedi adnabod y ffactorau risg, dylid ystyried y mesurau rheoli i'w lliniaru. Bydd y mesurau rheoli hyn naill ai yn eu lle eisoed neu bydd angen eu gweithredu.

- Dylai aseswyr gychwyn trwy ganfod y ffactorau risg lleol o amgylch y safle. Bydd y ffactorau risg yn gwahaniaethu o leoliad i leoliad, felly mae'n bwysig deall nodweddion penodol yr ardal leol yn ogystal â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddi neu'n ymweld â hi.

Cam 2: Gweithredu gamblo a dyluniad materol

Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â gweithrediad gamblo, dylai'r aseswr ystyried y risgiau lleol y mae rhanddeiliaid ehangach yn eu derbyn yn gyffredinol a'r modd y gall y gweithrediadau gamblo effeithio ar y risg hwnnw.

Mae dyluniad materol yr adeilad yn brif ystyriaeth oherwydd y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar y risg i'r amcanion trwyddedu. Wrth asesu'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â dyluniad a chynllun y safle, mae angen cyfeirio at ffactorau risg yr ardal leol sydd eisoes wedi'u nodi i sicrhau nad yw'r dyluniad yn ychwanegu at y risg hwnnw. Dylid ystyried y dyluniad mewnol ac allanol a dylid canfod a nodi'r ffactorau risg penodol.

Cam 3: Mesurau rheoli

Ar ôl canfod y ffactorau risg, dylai'r aseswr geisio cael hyd i fesurau rheoli i'w lliniaru. Bydd rhai mesurau rheoli'n berthnasol i un o dri chategori rheoli y soniwyd amdanynt uchod (systemau, dyluniadau a mesurau materol). Mae'n bosibl y bydd rhai ffactorau risg yn gofyn am gyfuniad o fesurau rheoli i liniaru'r risg yn ddigonol.

Cam 4: Cynllun Gweithredu

Ar ôl cynnal yr asesiad, dylid cwblhau cynllun gweithredu er mwyn dogfennu unrhyw gamau gweithredu a gosod a chytuno ar derfyn amser ar gyfer gwneud y gwaith gofynnol.

Asesiad wedi ei gwblhau

Mae'n rhaid gweithredu'r mesurau rheoli ar y safle, ac os yw'n berthnasol, dylid hyfforddi'r staff yno ar sut i ddefnyddio'r mesurau hynny, neu eu hyfforddi ar y polisi neu'r weithdrefn newydd. Mae'n rhaid cadw dogfennau'r asesiad a dylid eu hadolygu pan fo sbardun neu fel rhan o weithdrefn adolygu reolaidd.

7. Gwybodaeth Bellach

Ceir rhagor o wybodaeth am Ddeddf Gamblo 2005, y Datganiad o Bolisi Trwyddedu neu'r broses ymgeisio gan:

Yr Isadran Trwyddedu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig

Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Rhif ffôn: 01685 725000
E-bost: licensing@merthyr.gov.uk

Mae gwybodaeth hefyd ar gael gan:

The Gambling Commission
Victoria Square House
Birmingham
B2 4BP
Rhif ffôn: 0121 230 6666
Rhif ffacs: 0121 230 6720
E-bost: info@gamblingcommission.gov.uk
Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk

The Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London
SW1Y 5DH
Rhif ffôn: 020 7211 6200
Gwefan: www.culture.gov.uk

Atodiad A Mynediad i Safle

Casinos

- Rhaid i fynedfa'r prif fynediad i'r safle fod o stryd;
- Ni ddylai unrhyw fynedfa i gasino fod o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;
- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o unrhyw safle arall sy'n dal Trwydded Safle Gamblo.

Canolfan Gamblo i Oedolion

- Ni ddylai unrhyw gwsmer gael mynediad uniongyrchol i'r safle o unrhyw safle gamblo trwyddedig arall.

Siopau Betio

- Rhaid i'r mynediad fod o stryd neu o safle arall â Thrwydded Safle Betio;
- Ni ddylid cael unrhyw fynediad uniongyrchol o siop fetio i safle arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau. Mewn gwirionedd, ni ellir cael mynedfa i siop fetio o siop o unrhyw fath, ac ni allech gael siop fetio yng nghefn caffi - byddai'n rhaid trwyddedu'r ardal gyfan.

Traciau

Ni ddylai unrhyw gwsmer gael mynediad uniongyrchol i'r safle o:

- gasino;
- canolfan gamblo i oedolion.

Safleoedd bingo

Ni ddylai unrhyw gwsmer gael mynediad uniongyrchol i'r safle o:

- gasino
- canolfan gamblo i oedolion
- safle betio, heblaw am drac

Canolfan Adloniant i Deuluoedd

Ni ddylai unrhyw gwsmer gael mynediad uniongyrchol i'r safle o:

- gasino
- canolfan gamblo i oedolion
- safle betio, heblaw am drac

Mae Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys canllawiau pellach ar y mater hwn, a bydd yr Awdurdod hwn yn eu hystyried hwythau hefyd wrth wneud penderfyniadau.

Atodiad B Rhestr Ddirprwyo Swyddogaethau a Phenderfyniadau Trwyddedu

Materion i'w Trin	Cyngor Llawn	Is-bwyllgor	Swyddogion
Polisi Gamblo tair blynedd	x		
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	x		
Pennu ffioedd – pan fo hynny'n briodol			x
Cais am Drwydded Safle		Lle cafwyd sylwadau na thynnwyd yn ôl	Lle na chafwyd sylwadau/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais i amrywio trwydded		Lle cafwyd sylwadau na thynnwyd yn ôl	Lle na chafwyd sylwadau/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Cais i drosglwyddo trwydded		Lle cafwyd sylwadau gan y Comisiwn	Lle na chafwyd sylwadau gan y Comisiwn
Cais am ddatganiad darpariaethol		Lle cafwyd sylwadau na thynnwyd yn ôl	Lle na chafwyd sylwadau/sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Adolygu Trwydded Safle		x	
Dirymu trwydded safle am beidio â thalu tâl trwydded flynyddol			x
Cais am hawlenni gamblo clwb/ peiriannau clwb		Lle gwnaed gwrthwynebiadau (ac na thynnwyd hwy'n ôl)	Lle na chafwyd gwrthwynebiadau/ gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl
Canslo hawlenni gamblo clwb/ peiriannau clwb		Pob achos arall	Lle cadarnhawyd nad yw'r clwb bellach yn bodoli
Ceisiadau am hawlenni eraill		Lle gwnaed gwrthwynebiadau (ac na thynnwyd hwy'n ôl)	Lle na chafwyd gwrthwynebiadau/ gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl
Canslo hawlenni			

Materion i'w Trin	Cyngor Llawn	Is-bwyllgor	Swyddogion
gamblo safle trwyddedig			x
Ystyried hysbysiad defnydd dros dro			x
Penderfyniad i roi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro		x	
Cofrestru Cymdeithas Loteri Fach			x
Gwrthod Cymdeithas Loteri Fach			x
Dirymu Cymdeithas Loteri Fach		Pob achos arall	Lle nad yw'r ffi flynyddol wedi'i thalu

Atodiad C Diffiniadau

SYLWCH: Yn y Polisi hwn, caiff y diffiniadau canlynol eu cynnwys i roi esboniad o dermau arbennig sydd yn y Ddeddf ac, felly, yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Mewn rhai achosion, maent yn fyrfodd o'r hyn sydd yn y Ddeddf Gamblo 2005 neu'n ddehongliad o'r termau hynny. I gael diffiniad llawn o'r termau a ddefnyddir, rhaid cyfeirio at y Ddeddf Gamblo 2005.

Ystyr "y Cyngor" yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn gweithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu yn ôl diffiniad Deddf Gamblo 2005.

Ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Gamblo 2005.

Ystyr "Y Fwrdeistref Sirol" yw Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

"Yr Awdurdod Trwyddedu" yw'r awdurdod lle mae'r safle'n sefyll yn gyfan gwbl/yn rhannol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu (fel yn yr awdurdod dyroddi) hefyd yn awdurdod cyfrifol.

"Y Comisiwn Gamblo" yw corff a sefydlwyd gan y Llywodraeth fel y rheolydd unedig ar gyfer gamblo, yn disodli'r Bwrdd Gamblo.

Ystyr "Awdurdod Cyfrifol" yw corff cyhoeddus sy'n rhaid ei hysbysu o geisiadau arbennig am drwyddedau safle a hawlenni, ac sydd â hawl i wneud sylwadau ar unrhyw un o'r amcanion trwyddedu.

Ystyr "plant" yw unigolion o dan 16 oed.

Ystyr "pobl ifanc" yw unigolion o dan 18 oed ac yn 16 oed neu'n hŷn.

Ni chaiff "person bregus" mo'i ddiffinio ond rhagdybir bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag y maent eisiau, pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w modd, a phobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau deallus neu gytbwys ynghylch gamblo oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau.

Ystyr "Amodau Gorfodol" yw amodau penodol sy'n cael eu darparu gan reoliadau i'w hatodi at drwyddedau safle.

Ystyr "Amodau Diofyn" yw amodau penodol a ddarparwyd ar eu cyfer gan reoliadau i'w hatodi at drwydded oni bai fod y Cyngor yn eu heithrio.

Ystyr "Safle" yw unrhyw fan, gan gynnwys cwch neu adeilad symudol.

Ystyr "Traciau" yw cwrs rasio ceffylau, trac cŵn, neu unrhyw ran o safle lle cynhelir neu y bwriedir cynnal ras neu ddigwyddiad chwaraeon arall.

Atodiad D Crynodeb o Ddarpariaeth Peiriannau yn ôl Safle

Categori Peiriannau							
Math o safle	A	B1	B2	B3	B4	C	D
Casino mawr (cymhareb peiriannau/byrddau o 5-1 hyd at yr uchafswm)				Uchafswm o 150 peiriant Unrhyw gyfuniad o beiriannau categorïau B i D (heblaw peiriannau B3A), o fewn yr uchafswm o 150 (yn amodol ar gymhareb peiriannau/byrddau)			
Casino bach (cymhareb peiriannau/byrddau o 2-1 hyd at yr uchafswm)				Uchafswm o 80 peiriant Unrhyw gyfuniad o beiriannau categorïau B i D (heblaw peiriannau B3A), o fewn yr uchafswm o 80 (yn amodol ar gymhareb peiriannau/byrddau)			
Casino cyn Deddf 2005 (dim cymhareb peiriannau/byrddau)				Uchafswm o 20 peiriant categorïau B i D (heblaw peiriannau B3A), neu unrhyw nifer o beiriannau C neu D yn lle hynny			
Safleoedd betio a thraciau lle ceir betio cronfa				Uchafswm o 4 peiriant categorïau B2 i D (heblaw peiriannau B3A)			
Safle bingo ¹		Hyd at 20% o gyfanswm y peiriannau gamblo sydd ar gael i'w defnyddio yn y safle categorïau B3 neu B4				Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D	
Canolfan gamblo i oedolion ²		Hyd at 20% o gyfanswm y peiriannau gamblo sydd ar gael i'w defnyddio yn y safle categorïau B3 neu B4				Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D	
Canolfan adloniant i'r teulu (â thrwydded) ³				Dim cyfyngiad ar beiriannau categori C neu D			
Canolfan adloniant i'r teulu (â hawlen) ³				Dim cyfyngiad ar beiriannau categori D			
Clybiau neu Sefydliad Lles Glowyr (â hawlenni) ^{4 5}				Uchafswm o 3 pheiriant yng nghategoriâu B3A neu B4 i D			
Safle cymwys â thrwydded ar gyfer alcohol				1 neu 2 beiriant yng nghategori C neu D yn ddiofyn ar hysbysiad			
Safle cymwys â thrwydded ar gyfer alcohol (â hawlen i osod peiriannau gamblo mewn safle trwyddedig)				Nifer y peiriannau categori C-D fel y'u pennwyd ar yr hawlen			
Ffair deithiol		Dim cyfyngiad ar beiriannau categori D					

¹ Mae trwyddedau ar gyfer safleoedd bingo yn caniatáu nifer o beiriannau gamblo categori B os nad ydynt yn fwy na 20% o gyfanswm y peiriannau gamblo yno. Lle rhoddwyd trwydded safle cyn 13 Gorffennaf 2011, ac yn unol â Deddf Gamblo 2005 (Peiriannau Gamblo mewn Safleoedd Bingo) Gorchymyn 2009, mae'r safleoedd hynny â'r hawl i ddarparu wyth peiriant gamblo categori B, neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau gamblo, pa un bynnag yw'r mwyaf. Mae peiriannau Categori B mewn safleoedd bingo wedi'u cyfyngu i beiriannau is-gategori B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

² Mae hawl gan ganolfannau gamblo i oedolion ddarparu nifer o beiriannau gamblo categori B os nad ydynt yn fwy na 20% o gyfanswm y peiriannau gamblo sydd ar gael i'w defnyddio ar y safle ac unrhyw nifer o beiriannau categori C neu D. Lle rhoddwyd trwydded safle cyn 13 Gorffennaf 2011, mae'r safleoedd hynny â'r hawl i ddarparu pedwar peiriant gamblo categori B, neu 20% o gyfanswm nifer y peiriannau gamblo, pa un bynnag yw'r mwyaf. Mae peiriannau Categori B mewn safleoedd gamblo i oedolion wedi'u cyfyngu i beiriannau is-gategori B3 a B4, ond nid peiriannau B3A.

³ Dim ond safleoedd sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu peiriannau gamblo, all ddal hawlen peiriant gamblo mewn FEC didrwydded, neu drwydded safle FEC. Gellir lleoli peiriannau Categori C ddim ond o fewn safleoedd FEC trwyddedig a lle mae hawlen FEC mewn grym. Rhaid iddynt gael eu gosod mewn man sy'n sicrhau bod y peiriannau i oedolion yn unig, yn cael eu gwahanu a'u goruchwyllo. Nid oes gan yr awdurdod trwyddedu unrhyw bŵer i osod terfyn ar nifer y peiriannau o dan yr hawlen FEC.

⁴ Mae Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr sy'n meddu ar hawlen gamblo neu hawlen peiriant clwb, â'r hawl i leoli hyd at dri pheiriant yng nghategoriâu B3A i D, ond dim ond un peiriant B3A y gellir ei leoli fel rhan o'r hawl hwn.

⁵ Mae gan glybiau masnachol sy'n meddu ar hawlenni peiriannau clwb neu hawlenni gamblo yr hawl i gyfanswm o dri pheiriant yng nghategori B4 i D.